

Cynllun economaidd- gymdeithasol Magnox 2016-19



Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
2. Ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid.....	4
3. Cynllun Economaidd-Gymdeithasol Magnox	6
3.1. Strategaeth economaidd-gymdeithasol Sefydliad Corff Rhiant / Cwmni Trwydded Safle	6
3.2. Blaenoriaethu ymyriadau.....	6
3.3. Cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox	8
4. Amcanion economaidd-gymdeithasol.....	9
4.1. Amcanion economaidd-gymdeithasol safleoedd	17
4.2. Disgrifiadau o'r Safle	17
Safleoedd blaenoriaeth uchel.....	17
4.2.1 Bradwell	17
4.2.2 Dungeness A.....	19
4.2.3 Hunterston A	21
4.2.4 Trawsfynydd.....	22
4.2.5 Wylfa	24
Safleoedd blaenoriaeth ganolig.....	26
4.2.6 Chapelcross	26
4.2.7 Hinkley Point A.....	28
4.2.8 Winfrith.....	29
Safleoedd blaenoriaeth isel.....	30
4.2.9 Berkeley	30
4.2.10 Harwell.....	31
4.2.11 Oldbury	31
4.2.12 Sizewell A	32
5. Gofal a Chynnal a Chadw.....	33
6. Monitro ac adrodd.....	33
7. Cynnydd yn erbyn y targedau yn 2016/17	33
7.1. Cyflogaeth – gan ffafrio creu swyddi gwerth uwch	33
7.2. Addysg / sgiliau – i gefnogi datgomisiynu a glanhau ac arallgyfeirio i sectorau eraill	
7.3. Seilwaith economaidd a chymdeithasol – gan gynnwys adfer a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol a naturiol.....	34
7.4. Annog arallgyfeirio i ddiwydiannau a sectorau eraill, gan gynnwys cefnogaeth i'r gadwyn gyflenwi leol.....	34
7.5. Targedau ar gyfer y dyfodol.....	34
Atodiad 1 – Matrics blaenoriaethu	36

Atodiad 2 – Manyleb / contract y cleient..... 38

1. Cyflwyniad

Mae amcan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA), sef “helpu i greu economïau lleol cynaliadwy, dynamig i gymunedau sy’n byw ger ein safleoedd” yn seiliedig ar bedair blaenoriaeth thematig.

Egwyddorion thematig NDA:

- Cyflogaeth – gan ffafrio creu swyddi gwerth uwch
- Addysg / sgiliau – i gefnogi datgomisiynu a glanhau ac arallgyfeirio i sectorau eraill
- Seilwaith economaidd a chymdeithasol – gan gynnwys adfer a gwella’r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol a naturiol
- Arallgyfeirio economaidd
- Arallgyfeirio i ddiwydiannau a sectorau eraill – gan gynnwys cefnogaeth i’r gadwyn gyflenwi leol

Mae ein strategaeth a’n cynllun economaidd-gymdeithasol yn cefnogi gweledigaeth a blaenoriaethau thematig yr NDA.

Er nad ydym yn uniongyrchol atebol am adfywio yn yr ardaloedd o amgylch ein safleoedd, mae Cavendish Fluor Partnership (CFP) a Magnox yn cydnabod y rôl bwysig rydym yn ei chwarae wrth gynorthwyo’r cymunedau a’r asiantaethau sy’n bartneriaid i ddatblygu cynlluniau a gweithredu mentrau sy’n helpu i leihau effaith datgomisiynu’r safleoedd.

Mae contract Magnox yn gosod rhwymedigaethau economaidd-gymdeithasol ar CFP, a Magnox (gweler **Atodiad 2**). Mae crynodeb o’r rhwymedigaethau i’w weld isod.

Ymrwymïadau economaidd-gymdeithasol (crynodeb):

- Cefnogi strategaeth yr NDA i ystyried canlyniadau economaidd-gymdeithasol ei gynlluniau, ymgysylltu ag asiantaethau sy’n ymwneud â datblygu economaidd, darparu cefnogaeth ariannol i Magnox ar gyfer gwariant economaidd-gymdeithasol a darparu cymorth ariannol uniongyrchol ar gyfer gweithgaredd economaidd-gymdeithasol,
- Cefnogi amcanion a pholisi economaidd-gymdeithasol NDA drwy ymgysylltu â’r NDA, Awdurdodau Lleol, asiantaethau datblygu a rhanddeiliaid allweddol eraill,
- Paratoi a chyflawni cynllun datblygu economaidd-gymdeithasol treigl tair blynedd mewn partneriaeth â’r NDA, gan ymgynghori â rhanddeiliaid,
- Cefnogi/gweithio gydag asiantaethau adfywio/datblygu economaidd lleol a chenedlaethol drwy gynllun economaidd-gymdeithasol ategol,
- Bydd y cynllun yn ystyried: cadw sgiliau lleol, trosglwyddo’r gweithlu, cynlluniau prentisiaid, sicrhau’r budd mwyaf i’r gadwyn gyflenwi/busnesau bach a chanolig, ymgysylltu â sefydliadau addysgol lleol, aildefnyddio tir,
- Cyhoeddi adolygiad blynyddol o berfformiad economaidd-gymdeithasol o’i gymharu â’r cynllun, ac o’i gymharu â thargedau cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol (CAMPUS),
- Blaenoriaethu ymyriadau economaidd-gymdeithasol; bod yn gydnaws â’r amserlen gofal a chynnal a chadw a’r prif amodau economaidd-gymdeithasol.

2. Ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid


Wrth ddatblygu cynllun economaidd-gymdeithasol treigl tair blynedd Magnox 2016-19, fe wnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn canfod eu barn a chael adborth

ganddynt yn ystod cyfnod ymgynghori o chwe wythnos (rhwng 12 Ionawr a 23 Chwefror 2016).

Rhestrir isod y grwpiau rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy fel rhan o'r broses hon isod:

- Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)
- Awdurdodau Lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban
- Aelodau Seneddol, Aelodau o Senedd yr Alban ac Aelodau Cynulliad Cymru
- Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru
- Timau rheoli Cwmnïau Trwydded Safle
- Grwpiau Rhanddeiliaid Safle / Cyngor Cyswllt â'r Gymuned Leol
- Cyrff anllywodraethol
- Partneriaethau economaidd-gymdeithasol
- Asiantaethau datblygu economaidd rhanbarthol
- Partneriaethau Menter Lleol a Byrddau Ardaloedd Menter
- Gweithlu Magnox
- EDF Energy a phrosiectau niwclear newydd EDF
- Pŵer Niwclear Horizon
- Undebau Llafur
- Fforymau'r Gadwyn Gyflenwi
- Fforwm Ymgynghorol Gwaddol Niwclear (NuLEAF) a Phwyllgor Cynghorau'r Alban ar Sylweddau Ymbelydrol (SCCORS).

Ffigur 1: Llinell amser ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid



Adroddiad ôl-ymgynghori

Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion a'r sylwadau ar gynllun datblygu economaidd-gymdeithasol drafft Magnox 2016-19 ym mis Mai 2016. Roedd yn cynnwys enw'r sawl yr ymgynghorwyd ag ef ac yn disgrifio sut y cafodd yr ymatebion/sylwadau a dderbyniwyd eu hystyried yn ofalus wrth ddatblygu'r ddogfen derfynol.

Ymgysylltu 2017-2019

Yn ystod 2017-2019 (cyfnod y cynllun treigl tair blynedd presennol) byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau sylfaenol a wneir i'r cynllun ac yn ystyried unrhyw adborth wrth ddiweddarau'r cynllun presennol neu wrth lunio'r fersiwn nesaf. Ymgynghorir yn ffurfiol ar gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox bob tair blynedd, ar ôl i'r cynllun treigl tair blynedd blaenorol ddod i ben.

Beth sydd wedi newid yn niweddariad 2017/18 i gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox 2016-2019?

- Mae'r targedau ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 sydd wedi eu nodi yn Nhabl 1 wedi eu hadolygu ar sail cynnydd yn erbyn targedau blwyddyn 1, strategaethau newydd Magnox

a'r mentrau a'r blaenoriaethau cymunedol lleol sydd wedi'u datblygu. Nid yw'r dull gweithredu a'r amcanion cyffredinol wedi newid.

- Mae cynllun tudalennau'r safleoedd wedi datblygu, sy'n canolbwyntio mwy ar lwyddiannau a chanlyniadau economaidd-gymdeithasol 2016/17.

3. Cynllun Economaidd-Gymdeithasol Magnox

3.1. Strategaeth economaidd-gymdeithasol Sefydliad Corff Rhiant / Cwmni Trwydded Safle

Mae ein strategaeth a'n hamcanion economaidd-gymdeithasol yn rhaeadru o strategaeth economaidd-gymdeithasol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, drwy'r Sefydliad Corff Rhiant a'r Cwmni Trwydded Safle i'r safleoedd, gan sicrhau cysondeb negeseuon a dulliau gweithredu. Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox yw'r dull ar gyfer dosbarthu arian grant sy'n cefnogi'r strategaeth a'r amcanion. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun hwn ar gael ar [wefan Magnox](#).

Strategaeth economaidd-gymdeithasol:

Mae prif feysydd ein strategaeth economaidd-gymdeithasol drosfwaol yn cynnwys:

- Defnyddio dull cyfannol sy'n cyfoethogi dysgu o brofiad ar draws y safleoedd ac eto'n cydnabod gofynion safleoedd unigol
- Adeiladu ar gysylltiadau â rhanddeiliaid a mentrau economaidd-gymdeithasol sy'n bodoli eisoes
- Gwella amrywiaeth economaidd a chreu cyfleoedd gwaith newydd
- Defnyddio profiad y sefydliadau rhiant ym maes addysg a hyfforddiant i wella'r cyfleoedd posibl i bobl yn y gadwyn gyflenwi
- Datblygu cyfleoedd i adleoli'r gweithlu i Cavendish Nuclear, Babcock International Group a Fluor ar yr adegau priodol yn ystod rhaglen Magnox
- Sicrhau gwerth am arian drwy ddefnydd wedi'i dargedu o gyllid ar gyfer mentrau economaidd-gymdeithasol sy'n cynnig yr effaith fwyaf am y gost leiaf ar safleoedd sydd wedi'u blaenoriaethu ar gyfer cyllid.

Mae ein cynlluniau'n ystyried:

- Cynlluniau datblygu economaidd-gymdeithasol lleol sy'n bodoli'n barod;
- Y prif amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn ardal pob safle Magnox;
- Polisiâu perthnasol y Llywodraeth, gan gynnwys polisiâu yng Nghymru a'r Alban;
- Canlyniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol;
- Cadw sgiliau mewn ardaloedd lleol/trosglwyddo sgiliau o bob safle Magnox i gymunedau lleol;
- Trosglwyddo'r hyn a ddysgwyd o'r Sefydliad Corff Rhiant i Magnox;
- Datblygu cynllun prentisiaid;
- Cynyddu potensial/capasiti cadwyni cyflenwi lleol i ymgeisio am waith gan bob safle Magnox;
- Ymgysylltu â sefydliadau addysg lleol, cefnogi cwricwla a chael unigolion i anelu'n uwch;
- Cefnogi swyddogaethau sy'n deillio o'r safleoedd Magnox i'r economi leol; ac
- Argaeledd tir cyfagos sy'n eiddo i'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear i'w werthu er budd economaidd-gymdeithasol;

3.2. Blaenoriaethu ymyriadau

Mae'r cynllun datblygu economaidd-gymdeithasol treigl tair blynedd yn darparu sail resymegol ar gyfer blaenoriaethu er mwyn sicrhau bod ymyriadau economaidd-gymdeithasol

yn cael eu targedu ble gallant gael yr effaith fwyaf, eu bod yn cynnig y gwerth gorau am arian a'u bod yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Gan ystyried blaenoriaethau thematig yr NDA , mae'r safleoedd wedi cael eu blaenoriaethu yn ôl y ffactorau canlynol:

- Proffil y gweithlu
- Dyddiadau trosglwyddo cylchred oes o gynhyrchu i dynnu tanwydd neu o ddatgomisiynu i ofal a chynnal a chadw
- Ystadegau yn ymwneud â'r boblogaeth oed gweithio a chyflogaeth (2014)
- Gwerth Ychwanegol Gros Rhanbarthol ac ystadegau Mynegai Amddifadedd Lluosog (o'u cymharu â'r cyfartaledd Cenedlaethol) (2013)
- Pellter daearyddol o gyflogaeth drefol
- Canlyniadau cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox a chyllid uniongyrchol gan yr NDA sydd wedi'i fuddsoddi hyd yn hyn
- Datblygu'r cyfleoedd a amlygwyd yng nghynllun datblygu economaidd-gymdeithasol blaenorol Magnox (2011-15), cynllun datblygu economaidd-gymdeithasol blaenorol Research Sites Restoration Limited (RSRL) a gweithredu argymhellion adroddiadau asesiadau annibynnol o effeithiau economaidd-gymdeithasol a chynlluniau gweithredu sy'n bodoli'n barod.
- Ffactorau allanol – cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer mewnfuddsoddiad, prosiectau gorsafedd niwclear newydd a chylchredau oes chwaer safleoedd niwclear.
- Y prif amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn yr ardal o gwmpas.

Bydd y flaenoriaeth a roddir i safleoedd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn rhoi sylw i ffactorau sy'n newid.

Blaenoriaethu safleoedd yw un ffactor a fydd yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch cyllid. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, y byddai prosiect trawsnewid cadarn a fyddai'n cael ei gyflwyno i Gynllun Economaidd-Gymdeithasol Magnox, sy'n bodloni'r meini prawf, yn cael ystyriaeth ddyladwy yn ôl teilyngdod, ochr yn ochr â cheisiadau eraill, waeth beth fo blaenoriaeth y safle.

Yn dilyn yr ymarfer blaenoriaethu hwn, y ceir crynodeb ohono yn **Atodiad 1**, cafodd y safleoedd eu categorio fel rhai blaenoriaeth uchel, canolig neu isel fel a ganlyn.

Ardaloedd/safleoedd blaenoriaeth uchel:

- Bradwell
- Dungeness A
- Hunterston
- Trawsfynydd
- Wylfa

Ardaloedd/safleoedd blaenoriaeth ganolig:

- Chapelcross
- Hinkley Point A
- Winfrith



Ardaloedd/safleoedd blaenoriaeth isel:

- Berkeley
- Harwell
- Oldbury
- Sizewell A

Cynlluniau Oes Safleoedd

Roedd y contract a ddyfarnwyd i Cavendish Fluor Partnership (CFP) gan yr NDA ym mis Medi 2014 ar gyfer mynd a'r 12 safle niwclear hanesyddol Magnox i gamau terfynol datgomisiynu yn unol â strategaeth yr NDA.

Fel rhan o'r contract, cafodd cyfnod cyfuno ei ymgorffori ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus er mwyn rhoi ei strategaeth a'i gynllun arfaethedig ar waith fesul tipyn a chysoni unrhyw wahaniaethau rhwng dogfennau'r tendr a'r gwir sefyllfa a ddaeth i'w ran ym mis Medi 2014.

Yn ystod y cyfnod cyfuno, penderfynwyd fod gwahaniaeth sylweddol rhwng cwmpas y gwaith a nodwyd yn nogfennau'r tendr a'r gwir sefyllfa a oedd yn bodoli ym mis Medi 2014.

Er bod CFP wedi cyflawni perfformiad cadarn ers mis Medi 2014, cytunodd yr NDA a CFP ar y cyd i ddod â chontract Magnox i ben oherwydd y gwahaniaeth sylweddol a nodwyd yn nogfennau'r tendr. Bydd y cyfnod rhybudd o 2 flynedd ar gyfer dod â'r contract i derfyn yn dechrau ym mis Medi 2017, felly bydd CFP yn rhoi'r gorau i weithredu'r contract ar 31 Awst 2019. Nid ydym yn disgwyl unrhyw newid i'r cynllun economaidd-gymdeithasol nac i'r cyllid o ganlyniad i'r cyhoeddiad hwn.

3.3. Cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox

Mae cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox yn darparu cyllid i gefnogi gweithgareddau sydd o fudd i fywyd cymdeithasol neu economaidd cymunedau, er mwyn cefnogi cyfrifoldebau'r NDA dan Ddeddf Ynni (2004) i leihau effaith economaidd-gymdeithasol ei raglen waith yn yr ardaloedd lle mae'n gweithio. Mae gan y cynllun dri nod yng nghyswllt ariannu:

1. Bod yn gymydog da
2. Helpu i greu cymunedau cynaliadwy
3. Cefnogi prosiectau trawsnewid sy'n lleihau effaith datgomisiynu safleoedd Magnox.

Caiff cyllid ei flaenoriaethu tuag at nodau 2 a 3 lle mae modd cyflawni'r budd economaidd-gymdeithasol mwyaf cynaliadwy.

Cyllid

Mae Magnox, Partneriaeth Cavendish Fluor a'r NDA yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn rheoli portffolio cyllid sy'n werth hyd at £1 miliwn bob blwyddyn ariannol. Mae cyllid ar gael drwy raglen dreigl i gefnogi ein hamcanion ar dair lefel:

1. Hyd at £1,000 ar gyfer prosiectau bach sy'n agos at safleoedd Magnox (cyllid cymydog da)
2. Hyd at £10,000 o wariant cyfalaf tuag at brosiect cynaliadwy
3. Dros £10,000 i gefnogi prosiectau mawr sy'n gwneud cyfraniad sylweddol tuag at leihau effaith datgomisiynu eich safle/safleoedd Magnox agosaf.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun a'r meini prawf ar gyfer cyllid i'w gweld yn <https://magnox socioeconomic.com/>

4. Amcanion economaidd-gymdeithasol

Mae ein hamcanion ar gyfer Cynllun Datblygu Economaidd-gymdeithasol Magnox, sy'n gynllun treigl tair blynedd, yn rhoadru o bolisi economaidd-gymdeithasol yr NDA, drwy'r Sefydliad Corff Rhiant a'r Cwmni Trwydded Safle i'r safleoedd. Mae manylion yr amcanion hyn i'w gweld yn **Nhabl 1**. Mae'r cynnydd cyffredinol yn erbyn yr amcanion hyn yn cael eu trafod yn **Adran 7**, ac mae llwyddiannau sy'n benodol i safle'n cael eu hamlygu ochr yn ochr ag amcanion penodol y safle yn **Adran 4.2**.

TABL 1			
Amcanion strategol	Amcanion Magnox	Targedau SMART	Mesurau perfformiad
Cyflogaeth – gan ffafrio creu swyddi gwerth uwch			
<p>Gwneud y gorau o botensial cyflenwyr lleol i ymgeisio am waith ar safleoedd drwy sefydlu rhaglen i drawsnewid y gadwyn gyflenwi:</p> <ul style="list-style-type: none"> Annog cyfleoedd ar gyfer busnesau bach a chanolig (BBaCh), a defnydd ohonynt. Datblygu cadwyn gyflenwi gref ac iach. Datblygu ymagwedd ystâd Magnox tuag at weithgareddau rheoli'r gadwyn gyflenwi. Datblygu partneriaethau cyflenwyr strategol sy'n canolbwyntio ar werth ychwanegol i Magnox a'i gyflenwyr. 	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> Gwella gwelededd drwy ddatblygu tudalennau gwe cyflenwyr Magnox, gan roi sylw arbennig i ddatblygu cynnwys BBaCh, diweddarau'r rhestr cyflenwyr a'r 20 Uchaf, monitro traffig ar y we ac ychwanegu cyswllt i wefan yr NDA. Gwella hygyrchedd drwy roi cyfleoedd i'r gadwyn gyflenwi ymgysylltu'n uniongyrchol â Magnox. <p>2017/18 Blwyddyn 2</p> <ol style="list-style-type: none"> Gwella gwelededd a hygyrchedd cyfleoedd y gadwyn gyflenwi ar sail adborth drwy gyfrwng arolwg cyflenwyr Ystyried y cyfle i safoni proses a dull yr holiadur cyn-gymhwyso, er mwyn ei gwneud yn haws i'r gadwyn gyflenwi, gan gynnwys BBaCh, i ymgeisio. <p>2018/19 Blwyddyn 3</p> <ol style="list-style-type: none"> Gwella gwelededd a hygyrchedd cyfleoedd y gadwyn gyflenwi ar sail adborth drwy gyfrwng arolwg cyflenwyr 	<ol style="list-style-type: none"> Cyhoeddi cynllun caffael 2016 ar www.magnoxsites.com erbyn 29 Gorffennaf 2016. Mynychu'r Digwyddiad blynyddol ar gyfer Cadwyn Gyflenwi Ystâd yr NDA. Cyflawni cam cyntaf y cynllun i drawsnewid y gadwyn gyflenwi erbyn 29 Gorffennaf 2016. <p>2017/18 Blwyddyn 2</p> <ol style="list-style-type: none"> Cyflawni arolwg cyflenwyr a chynllun gweithredu blynyddol ar sail yr adborth a ddarparwyd erbyn diwedd Hydref 2017. Datblygu tudalennau gwe cyflenwyr Magnox, gan roi sylw penodol i ddatblygu'r cynnwys ar gyfer BBaCh. Hyrwyddo tudalennau gwe cyflenwyr yn rheolaidd a monitro traffig ar y we gydol y flwyddyn Cynllun Caffael 2017/18 yn cael ei gyhoeddi ac yn cael cyhoeddusrwydd ar amser ac yn cael ei ddiweddarau bob mis Ystyried safoni rhyngwyneb tendro cyflenwyr drwy ddefnyddio technoleg Sefydlu gwaelodlin traffig ar gyfer tudalennau gwe cyflenwyr ar y wefan <p>2018/19 Blwyddyn 3</p> <ol style="list-style-type: none"> Cyflawni arolwg cyflenwyr a chynllun gweithredu blynyddol ar sail yr adborth a ddarparwyd Hyrwyddo tudalennau gwe cyflenwyr yn rheolaidd a monitro traffig ar y we Cyhoeddi crynodeb o arolwg cyflenwyr a chynllun gweithredu ar y wefan erbyn Mawrth 2018. <p>Cynllun Caffael 2018/19 yn cael ei gyhoeddi ac yn cael cyhoeddusrwydd ar amser ac yn cael ei ddiweddarau bob mis</p>	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> Nifer y cyfleoedd ar gyfer contractau sy'n cael eu postio bob blwyddyn ar www.magnoxsites.com ac Achilles Utilities Vendor Database. Nifer Grwpiau Llywio rhanbarthol yr NDA ar gyfer BBaCh a fynychwyd yn flynyddol. <p>2017/18 Blwyddyn 2</p> <ol style="list-style-type: none"> Tystiolaeth o waith hyrwyddo a datblygu tudalennau gwe cyflenwyr erbyn Medi 17. Tystiolaeth fod y cyfle i safoni proses a dull yr holiadur cyn-gymhwyso wedi'i drafod a'i ystyried. <p>2018/19 Blwyddyn 3</p> <ol style="list-style-type: none"> Tystiolaeth o waith hyrwyddo tudalennau gwe cyflenwyr Cynnydd mewn traffig ar gyfer tudalennau gwe cyflenwyr ar y wefan

Amcanion strategol	Amcanion Magnox	Targedau CAMPUS	Mesurau perfformiad
<p>Defnyddio profiad busnes rhiant-sefydliad i sefydlu rhaglen ar gyfer y gadwyn gyflenwi, ac yn benodol, ar gyfer BBaCh i wella eu gallu a sefydlu dull gweithredu strwythuredig i ddatblygu cyflenwyr sy'n gyson â rheoliadau caffael cyhoeddus ac sy'n gwneud y gorau o'r potensial ar gyfer cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi leol.</p>	<p>2017/18 Blwyddyn 2 Deall y newidiadau mewn gwerth a % gwariant cyffredinol y gadwyn gyflenwi gyda BBaCh</p> <p>2018/19 Blwyddyn 3 Fel yn Mlwyddyn 2</p>	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Monitro gwerth a % gwariant cyffredinol y gadwyn gyflenwi gyda BBaCh ar sail meini prawf y cytunwyd arnynt gyda'r NDA <p>2017/18 Blwyddyn 2</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Monitro gwerth a % gwariant cyffredinol y gadwyn gyflenwi gyda BBaCh ar sail meini prawf y cytunwyd arnynt gyda'r NDA <p>2018/19 Blwyddyn 3</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Monitro gwerth a % gwariant cyffredinol y gadwyn gyflenwi gyda BBaCh ar sail meini prawf y cytunwyd arnynt gyda'r NDA 	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Sefydlu dull adrodd am werth a % gwariant y gadwyn gyflenwi gyda BBaCh erbyn 01 Gorffennaf 2016 ac adrodd ar hynny bob chwarter. <p>2017/18 Blwyddyn 2</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Adroddiadau chwarterol am werth a % gwariant y gadwyn gyflenwi gyda BBaCh ar sail meini prawf y cytunwyd arnynt gyda'r NDA. <p>2018/19 Blwyddyn 3</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Adroddiadau chwarterol am werth a % gwariant y gadwyn gyflenwi gyda BBaCh ar sail meini prawf y cytunwyd arnynt gyda'r NDA.
Cyflogaeth – gan ffafrio creu swyddi gwerth uwch			
<p>Datblygu cyfleoedd ar gyfer busnesau deilliannol o'r safle.</p>	<p>Edrych ar gyfleoedd ar gyfer busnesau newydd neu ddeilliannol.</p> <p>Pan fo cyfleoedd ar gael, rhoi dulliau ar waith i gefnogi staff i ddatblygu cyfleoedd o'r fath.</p>	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Ar gyfer staff sy'n trosglwyddo, gweithio gyda chwmni Penna i ddatblygu cefnogaeth a gweithdai ynglŷn â sut i ddechrau busnesau newydd. 2. Crynodeb o adborth wedi'i baratoi erbyn 28 Chwefror 2017 <p>2017/18 Blwyddyn 2</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gwerthuso perfformiad cefnogaeth sydd ar gael ac adborth yn ymwneud â'r gefnogaeth erbyn 28 Chwefror 2018. 2. Edrych ar gyfleoedd i ymestyn cefnogaeth i safleoedd eraill wrth i'r adeg y byddant yn cau agosáu, erbyn 28 Chwefror 2018. <p>2018/19 Blwyddyn 3</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Edrych ar gyfleoedd i ymestyn cefnogaeth i safleoedd eraill wrth i'r adeg y byddant yn cau agosáu, erbyn 28 Chwefror 2017. 	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Nifer y bobl sy'n mynychu gweithdy/cyfarfod neu'n manteisio ar gefnogaeth bob blwyddyn. 2. Gwerth a nifer y busnesau deilliannol neu newydd a gefnogir bob blwyddyn gan gynlluniau cefnogi presennol Magnox. <p>2016-19 Blynnyddoedd 2-3</p> <ol style="list-style-type: none"> 3. Nifer y bobl sy'n mynychu gweithdy/cyfarfod neu'n manteisio ar gefnogaeth bob blwyddyn. 4. Gwerth a nifer y busnesau deilliannol neu newydd a gefnogir bob blwyddyn gan gynlluniau cefnogi presennol Magnox.

Amcanion strategol	Amcanion Magnox	Targedau CAMPUS	Mesurau perfformiad
<p>Adnabod a gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd i adleoli adnoddau yn lleol, ac ar gyfer secondiadau a hyfforddiant.</p> <p>Cyd-fynd â strategaeth pobl yr NDA a Magnox, yn arbennig o ran cefnogi'r broses o ddysgu sgiliau newydd ac adleoli i rannau eraill o ystâd yr NDA, a phan fo hynny'n bosib, ceisio cadw sgiliau yn yr ardaloedd lleol.</p> <p>CAN'T SEEM TO REMOVE OR MERGE COLUMNS</p>	<p>Sicrhau bod staff yn ymwybodol o gyfleoedd lleol ar gyfer adleoli, secondiadau ac ailhyfforddi.</p> <p>Gwella ymwybyddiaeth a gwybodaeth gweithwyr am gyfleoedd lleol</p>	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> Gweithio gyda Penna er mwyn sefydlu proses i wneud y staff sy'n trosglwyddo yn ymwybodol o gyfleoedd lleol ar gyfer adleoli, secondiadau ac ailhyfforddi o fewn y cwmnïau rhiant ac yn y gadwyn gyflenwi ehangach. Gweithio gyda Penna er mwyn deall gofynion sgiliau cyflogwyr lleol <p>2017-19 Blynnyddoedd 2-3</p> <ol style="list-style-type: none"> Dal i weithio gyda Penna i wneud staff sy'n trosglwyddo yn ymwybodol o gyfleoedd lleol ar gyfer adleoli, secondiadau ac ailhyfforddi. Ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol er mwyn i gyflogwyr weld y talent a'r sgiliau wrth i staff ddod ar gael. Cyhoeddi a rhoi cyhoeddusrwydd i gynlluniau Adnoddau Blynnyddol erbyn 31 Mawrth 2018, a bob blwyddyn ar ôl hynny, i sicrhau bod rhanddeiliaid a chyflogwyr yn gweld y talent wrth i staff ddod ar gael. 	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> Rhoi gwybod am gyfleoedd ar gyfer adleoli, secondiadau ac ailhyfforddi yn y rhiant-gwmnïau a'r gadwyn gyflenwi ehangach erbyn 29 Gorffennaf 2016. Nifer y cyflogwyr lleol y cysylltir â nhw'n flynyddol, er mwyn deall gofynion sgiliau cyflogwyr lleol, erbyn 30 Medi 2016. Gweithio gyda Penna er mwyn sefydlu cronfa ddata sgiliau Magnox a fydd yn cynnwys gwybodaeth am staff sy'n trosglwyddo a gofynion sgiliau cyflogwyr lleol erbyn 30 Medi 2016. <p>2017-19 Blynnyddoedd 2-3</p> <ol style="list-style-type: none"> Adrodd am nifer y gweithwyr y cyfeiriwyd at Penna erbyn diwedd y Flwyddyn Ariannol Adrodd am nifer y Cynlluniau Datblygu Personol a grëwyd ar gyfer gweithwyr erbyn diwedd y Flwyddyn Ariannol Adrodd am nifer y cyfleoedd adleoli mewnol a gynigir i staff bob blwyddyn Adrodd am nifer y staff sy'n trosglwyddo sy'n mynychu gweithdai/sesiynau cymorth dod o hyd i waith arall bob blwyddyn. Adrodd am nifer y gweithwyr sy'n sicrhau eu canlyniad uchelgeisiol personol.
Amcanion strategol	Amcanion Magnox	Targedau CAMPUS	Mesurau perfformiad
Addysg / sgiliau – i gefnogi datgomisiynu a glanhau ac arallgyfeirio i sectorau eraill			

<p>Datblygu rhaglenni hyfforddiant a dysgu sgiliau newydd eang a hygyrch, gan gynnwys prentisiaethau, i helpu'r gweithlu i drosglwyddo i gyflogaeth addas.</p> <p>Cysoni hyn â chynlluniau prentisiaeth presennol Cavendish Nuclear a Fluor er mwyn sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gyfleoedd a budd i'r diwydiant niwclear.</p> <p>CAN'T SEEM TO REMOVE OR MERGE COLUMNS</p>	<p>Cyfuno rhaglenni hyfforddiant y cwmnïau trwydded safle a darparu un porth hyfforddiant ar gyfer staff y cwmni trwydded safle, i gefnogi'r gweithlu i drosglwyddo i gyflogaeth addas.</p> <p>Cyflawni'r Rhaglen Rheoli Talentau sy'n adnabod sêr y dyfodol yn y sefydliad ac yn eu rhoi ar raglen ddatblygu strwythuredig i wella eu dilyniant gyrfa.</p>	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> Datblygu cynllun er mwyn cyfuno rhaglen hyfforddiant Magnox a oedd yn bodoli'n barod a rhaglen hyfforddiant flaenorol yr RSRL i greu un rhaglen a phorth erbyn 30 Medi 2016. Creu Rhaglen Rheoli Talentau a'i rhoi ar waith erbyn Medi 16. Un rhaglen hyfforddiant a phorth y cwmni trwydded safle wedi'i sefydlu erbyn 31 Ionawr 2017. <p>2017/18 Blwyddyn 2</p> <ol style="list-style-type: none"> Cyflawni'r Rhaglen Rheoli Talentau Cyfuno rhaglen hyfforddiant Magnox a oedd yn bodoli'n barod a rhaglen hyfforddiant flaenorol RSRL, lle bo'n briodol, i greu un rhaglen erbyn diwedd Ionawr 2017. Cyfoethogi un rhaglen hyfforddiant y cwmni trwydded safle drwy edrych ar y posibilrwydd o ryngweithio o fewn portffolios hyfforddiant y cwmnïau rhiant. Dal i gyflawni'r rhaglen hyfforddiant y cwmni trwydded safle i gefnogi'r gweithlu i drosglwyddo i gyflogaeth addas. Portffolios hyfforddiant cwmnïau rhiant wedi'u hagor erbyn 31 Mai 2017. <p>2018/19 Blwyddyn 3</p> <ol style="list-style-type: none"> Dal i gyflawni'r Rhaglen Rheoli Talentau Dal i gyflawni'r rhaglen hyfforddiant y cwmni trwydded safle i gefnogi'r gweithlu i drosglwyddo i gyflogaeth addas. 	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> Cynllun i greu un rhaglen hyfforddiant a phorth ar gyfer y cwmni trwydded safle wedi'i sefydlu mewn pryd. Creu a gweithredu Rhaglen Rheoli Talentau a nodi unigolion i fynd ar y rhaglen erbyn 30 Medi 2016. Nifer yr unigolion a nodwyd ar gyfer y Rhaglen Rheoli Talentau. <p>2017/18 Blwyddyn 2</p> <ol style="list-style-type: none"> Nifer yr unigolion a nodwyd ar gyfer y Rhaglen Rheoli Talentau. Nifer y cyfleoedd hyfforddiant a'r cymwysterau wedi'u cysoni â safonau diwydiant sy'n cael eu creu bob blwyddyn. <p>2018/19 Blwyddyn 3</p> <ol style="list-style-type: none"> Nifer yr unigolion a nodwyd ar gyfer y Rhaglen Rheoli Talentau. Nifer y cyfleoedd hyfforddiant a'r cymwysterau wedi'u cysoni â safonau diwydiant sy'n cael eu creu bob blwyddyn.
	<p>Sefydlu proses i gefnogi unigolion â'u cynlluniau trosglwyddo a mynediad at gefnogaeth trosglwyddo.</p>	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> Gweithio gyda Penna i ddarparu mynediad at wybodaeth briodol fel bod unigolion yn gallu datblygu eu cynlluniau trosglwyddo h.y. adnoddau priodol, templedi, a chyfleoedd i drosglwyddo i sefydliadau rhiant. Sefydlu proses effeithiol er mwyn ei gwneud hi'n haws i staff drosglwyddo i sefydliadau corff rhiant. <p>2017/18 Blwyddyn 2</p> <ol style="list-style-type: none"> Cyflawni'r broses er mwyn ei gwneud hi'n haws i staff drosglwyddo i sefydliadau corff rhiant. Darparu mynediad at wybodaeth briodol fel bod unigolion yn gallu datblygu eu cynlluniau trosglwyddo. <p>2018/19 Blwyddyn 3</p> <ol style="list-style-type: none"> Cyflawni'r broses er mwyn ei gwneud hi'n haws i staff drosglwyddo i sefydliadau corff rhiant. Darparu mynediad at wybodaeth briodol fel bod unigolion yn gallu datblygu eu cynlluniau trosglwyddo. 	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> Tystiolaeth bod cefnogaeth adnoddau ar gael i staff. Cynllun a phroses drosglwyddo Sefydliad Corff Rhiant wedi'u sefydlu erbyn 29 Gorffennaf 2016. Nifer y bobl sy'n trosglwyddo y cynigir cyflogaeth amgen iddynt i'r Sefydliad Corff Rhiant. <p>2017/18 Blwyddyn 2</p> <ol style="list-style-type: none"> Nifer y bobl sy'n trosglwyddo y cynigir cyflogaeth amgen iddynt i'r Sefydliad Corff Rhiant. Tystiolaeth bod cefnogaeth adnoddau ar gael i staff. <p>2018/19 Blwyddyn 3</p> <ol style="list-style-type: none"> Nifer y bobl sy'n trosglwyddo y cynigir cyflogaeth amgen iddynt i'r Sefydliad Corff Rhiant. Tystiolaeth bod cefnogaeth adnoddau ar gael i staff.

Amcanion strategol	Amcanion Magnox	Targedau CAMPUS	Mesurau perfformiad
Addysg / sgiliau – i gefnogi datgomisiynu a glanhau ac arallgyfeirio i sectorau eraill			
Darparu a sefydlu proses ar gyfer trosglwyddo staff Magnox i'r sefydliadau corff rhiant ar yr adeg briodol, pan fydd eu gwaith ar y rhaglen Magnox wedi dod i ben.	Darparu a chyfleu'r broses ar gyfer trosglwyddo staff Magnox i'r sefydliadau corff rhiant ar yr adeg briodol, pan fydd eu gwaith ar y rhaglen Magnox wedi dod i ben.	2016-19 Blynyddoedd 1-3 <ol style="list-style-type: none"> 1. Datblygu a chyflawni cynllun cyfathrebu ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfleoedd yn y sefydliadau corff rhiant erbyn diwedd 2016. 2. Cyfathrebu'n barhaus i gefnogi'r uchod drwy gydol cyfnod y cynllun hwn 	2016-19 Blynyddoedd 1-3 <ol style="list-style-type: none"> 1. Nifer y cyfleoedd a oedd ar gael yn y cwmnïau rhiant-sefydliad bob blwyddyn. 2. Nifer y staff y cynigiwyd cyfleoedd iddynt yn y cwmnïau rhiant-sefydliad bob blwyddyn.
Gweithio gyda chyrff sgiliau, yr Academi Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer Niwclear (NSAN), awdurdodau lleol a sefydliadau addysg lleol er mwyn cefnogi rhaglenni prentisiaeth a darparu gwasanaeth mentora a chefnogi i gynlluniau prentisiaeth yn y gadwyn gyflenwi.	<p>Â chefnogaeth ac arweiniad gan y Sefydliad Corff Rhiant, gweithio gyda chyrff sgiliau, NSAN, awdurdodau lleol a sefydliadau addysg lleol er mwyn cefnogi rhaglenni prentisiaeth a darparu gwasanaeth mentora a chefnogaeth i gynlluniau prentisiaeth yn y gadwyn gyflenwi.</p> <p>Bydd hyn yn cynnwys asesu effaith lefi prentisiaethau newydd y llywodraeth a datblygu rhaglen prentisiaethau briodol ar gyfer Magnox.</p>	2016/17 Blwyddyn 1 <ol style="list-style-type: none"> 1. Asesu effaith lefi prentisiaethau newydd y llywodraeth a dynodi pa raglenni prentisiaethau'r diwydiant sy'n bodoli yng nghymunedau Magnox, gan gynnwys cynlluniau Sefydliadau Corff Rhiant i ganfod rhaglen prentisiaethau briodol ar gyfer Magnox. 2. Sefydlu cysylltiadau â'r cyrff sgiliau perthnasol a nodi'r gefnogaeth y gall Magnox ei darparu i raglenni prentisiaeth allanol erbyn 31 Hydref 2016. 3. Nodi pa raglenni prentisiaeth diwydiant sy'n bodoli yng nghymunedau Magnox, gan gynnwys cynlluniau'r sefydliad corff rhiant, er mwyn nodi rhaglen prentisiaeth briodol ar gyfer Magnox erbyn 30 Ebrill 2016. 4. 2017/28 Blwyddyn 2 <ol style="list-style-type: none"> 1. Datblygu a chyflenwi rhaglen prentisiaethau briodol ar gyfer Magnox sy'n cefnogi lefi prentisiaethau Llywodraeth y DU. 2018/19 Blwyddyn 3 <ol style="list-style-type: none"> 1. Cyflenwi rhaglen prentisiaethau briodol ar gyfer Magnox sy'n cefnogi lefi prentisiaethau Llywodraeth y DU. 	2016-19 Blynyddoedd 1-3 <ol style="list-style-type: none"> 1. Nifer y cyfarfodydd cysylltiedig â phrentisiaeth mewn diwydiant a fynychwyd bob blwyddyn h.y. NSAN. 2. Nifer y lleoliadau prentisiaeth a dderbyniwyd ar safleoedd Magnox bob blwyddyn.
Amcanion strategol	Amcanion Magnox	Targedau CAMPUS	Mesurau perfformiad
Seilwaith economaidd a chymdeithasol – gan gynnwys adfer a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol a naturiol			

<p>Cefnogi mentrau adfywio seilwaith economaidd a chymdeithasol drwy ddefnydd wedi'i dargedu o'r gronfa economaidd-gymdeithasol a chefnogaeth y cwmni trwydded safle lle bo'n briodol.</p> <p>Cefnogi cyfleoedd i werthu tir er budd economaidd-gymdeithasol.</p>	<p>Cefnogi prosiectau economaidd, adfer yr amgylchedd a seilwaith cymdeithasol sy'n gydnaws â pholisi'r NDA ac sy'n bodloni meini prawf ariannu/blaenoriaethu.</p>	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gweithio gyda phartneriaethau economaidd-gymdeithasol i nodi prosiectau seilwaith cymdeithasol a chyfleoedd i werthu tir wedi'i ddad-drwyddedu ar gyfer budd economaidd-gymdeithasol drwy gydol 2016. 2. Dal i gefnogi prosiectau economaidd neu seilwaith cymdeithasol trawsnewidiol drwy gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox, sy'n cyd-fynd â pholisi'r NDA ac sy'n bodloni'r meini prawf cyllido/blaenoriaethu. <p>2017/18 Blwyddyn 2</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Ystyried a oes ar safleoedd blaenoriaeth ganolig newydd angen adroddiad am yr asesiad o'r effaith economaidd-gymdeithasol a chomisiynu cynllun gweithredu, y gellir ei gefnogi drwy'r cynllun economaidd-gymdeithasol drwy arian cyfatebol. 2. Dal i gefnogi prosiectau economaidd neu seilwaith cymdeithasol trawsnewidiol drwy gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox, sy'n cyd-fynd â pholisi'r NDA ac sy'n bodloni'r meini prawf cyllido/blaenoriaethu. 	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Nifer/gwerth y prosiectau seilwaith cymdeithasol sy'n cael eu cefnogi drwy'r gronfa economaidd-gymdeithasol bob blwyddyn. 2. Nifer y cyfleoedd a gefnogwyd i werthu tir er budd economaidd-gymdeithasol bob blwyddyn. 3. Cymhareb gerio arian cyfatebol wedi'i gyflawni ar gyfer y flwyddyn ariannol 16/17 4. Budd economaidd-gymdeithasol a ddarperir gan y prosiectau a gefnogir yn cael ei fesur yn flynyddol ac adroddiad yn cael ei gyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 16/17. <p>2017/18 Blynnyddoedd 2-3</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Pan fydd gofyniad wedi'i nodi, nifer yr adroddiadau/cynlluniau gweithredu asesu effaith economaidd-gymdeithasol a gomisiynwyd. 2. Cymhareb gerio arian cyfatebol wedi'i gyflawni ar gyfer y flwyddyn ariannol 17/18 3. Budd economaidd-gymdeithasol a ddarperir gan y prosiectau a gefnogir yn cael ei fesur yn flynyddol ac adroddiad yn cael ei gyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 16/17. 4. Adrodd ar ganlyniadau ar gyfer safleoedd blaenoriaeth ganolig erbyn 30 Ebrill 2018.
<p>Gweithio gyda sefydliadau addysg lleol er mwyn cefnogi'r cwricwlwm a chodi dyheadau.</p>	<p>Nodi rhaglen ar gyfer cofnodi, cyhoeddi ac adrodd ar gefnogaeth gwirfoddoli/gweithgareddau STEM Magnox.</p>	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Nodi proses ar gyfer cofnodi ac adrodd am gefnogaeth STEM/gwirfoddoli sy'n bodoli'n barod (ffurflen ar-lein, cod archebu, cymeradwyaeth rheolwr llinell). 2. Nodi pa weithgareddau STEM sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol e.e. Busnes yn y Gymuned (BITC), STEMNet, gweithdai STEM sydd angen amser gwirfoddolwyr neu gefnogaeth ariannol. <p>2017/18 Blwyddyn 2</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Sefydlu rhaglen i gefnogi'r cwricwlwm ac annog disgyblion i ddilyn disgyblaethau STEM erbyn 20 Medi 2017. 2. Rhoi cyhoeddusrwydd i gyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer staff ac annog staff i gefnogi mentrau seilwaith cymdeithasol priodol. <p>2018/19 Blwyddyn 3</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cyflawni'r rhaglen i gefnogi'r cwricwlwm ac annog disgyblion i ddilyn disgyblaethau STEM. 3. Dal i roi cyhoeddusrwydd i gyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer staff ac annog staff i gefnogi mentrau seilwaith cymdeithasol priodol erbyn Ionawr 2017. 	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mekanwaith adrodd am gyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer gweithwyr wedi'i sefydlu erbyn 29 Gorffennaf 2016. 2. Nodi pa adnodd sydd ei angen er mwyn cefnogi gweithgareddau addysg erbyn 31 Mawrth 2017. 3. Adroddiad gweithgaredd STEM wedi'i gyhoeddi mewn pryd, sydd hefyd yn cynnwys gweithgaredd STEM a gefnogwyd drwy gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox. 4. Cytuno ar ddull gweithredu er mwyn sicrhau bod gweithgareddau STEM lleol a chenedlaethol yn cael cymaint o effaith ag sy'n bosibl erbyn 30 Medi 2016. <p>2017/18 Blwyddyn 2</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Nifer y Llysgenhadon STEM 'gweithredol', y Graddedigion Niwclear a'r cefnogwyr gwirfoddol. 2. Nifer yr ymweliadau addysg a'r mentrau STEM sy'n cael eu cyflawni yn flynyddol. <p>2018/19 Blwyddyn 3</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Nifer y Llysgenhadon STEM 'gweithredol', y Graddedigion Niwclear a'r cefnogwyr gwirfoddol. 2. Nifer yr ymweliadau addysg a'r mentrau STEM sy'n cael eu cyflawni yn flynyddol.

Amcanion strategol	Amcanion Magnox	Targedau CAMPUS	Mesurau perfformiad
Cyf 4 Blaenoriaeth thematig yr NDA	Annog arallgyfeirio i ddiwydiannau a sectorau eraill, gan gynnwys cefnogaeth i'r gadwyn gyflenwi leol		
Annog arallgyfeirio a datblygu busnes drwy weithio gydag asiantaethau datblygu economaidd lleol i annog mewnfuddsoddiad.	<p>Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau datblygu rhanbarthol ac awdurdodau lleol er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer mewnfuddsoddiad a chefnogi'r rhain ag adnoddau priodol gan y cwmni trwydded safle.</p> <p>Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau datblygu rhanbarthol ac awdurdodau lleol er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer annog a chefnogi arallgyfeirio a datblygu busnes.</p>	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> Nodi a sicrhau bod adnoddau economaidd-gymdeithasol addas gan y safle ar gael i weithio ochr yn ochr â'r rhanddeiliaid arweiniol er mwyn nodi cyfleoedd i sicrhau buddsoddiad yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith ac i annog a chefnogi arallgyfeirio a datblygu busnes. Nodi a mynychu cyfarfodydd gyda phob un o'r asiantaethau datblygu economaidd rhanbarthol a'r awdurdodau lleol drwy gydol 2016. Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau datblygu rhanbarthol ac awdurdodau lleol er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio ar bob safle blaenoriaeth uchel drwy gydol 2016. <p>2017-19 Blynnyddoedd 2-3</p> <ol style="list-style-type: none"> Nodi a sicrhau bod adnoddau economaidd-gymdeithasol addas gan y safle ar gael i weithio ochr yn ochr â'r rhanddeiliaid arweiniol er mwyn nodi cyfleoedd i sicrhau buddsoddiad yn yr Ardal Teithio i'r Gwaith ac i annog a chefnogi arallgyfeirio a datblygu busnes. Nodi a mynychu cyfarfodydd gyda phob un o'r asiantaethau datblygu economaidd rhanbarthol a'r awdurdodau lleol drwy gydol 2016. Cefnogi ceisiadau priodol sy'n cefnogi arallgyfeirio a datblygu busnes sy'n cyd-fynd â meini prawf Cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox. 	<p>2016/17 Blwyddyn 1</p> <ol style="list-style-type: none"> Nifer y cyfleoedd mewnfuddsoddi a nodwyd ar gyfer safleoedd blaenoriaeth uchel. <p>2016/17 Blynnyddoedd 1-3</p> <ol style="list-style-type: none"> Nifer y cyfarfodydd economaidd-gymdeithasol a gefnogwyd gan Magnox. Nifer/gwerth y ceisiadau priodol am gyllid a gefnogwyd drwy gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox bob blwyddyn. Cymhareb gerio arian cyfatebol a gyflawnwyd. Nifer y busnesau newydd sy'n cael eu creu bob blwyddyn.

Nodyn 1: Penna – Trydydd parti sy'n darparu cymorth adleoli a sesiynau cymorth i ddod o hyd i waith arall i staff sy'n trosglwyddo. Bydd hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, helpu staff i ddatblygu technegau er mwyn dygymod â newid, adnabod sgiliau a chymwyseddau y mae galw amdanynt mewn rhannau eraill o'r sefydliad neu'n ehangach na hynny.

4.1. Amcanion economaidd-gymdeithasol safleoedd

Gan gydnabod bod angen i'r cynllun datblygu economaidd-gymdeithasol ganolbwyntio ar y safleoedd hynny a nodwyd fel safleoedd blaenoriaeth uchel neu ganolig, mae amcanion ychwanegol wedi'u nodi ar gyfer y safleoedd penodol hyn. Mae'r rhain yn ychwanegol at yr amcanion ar gyfer y cwmni cyfan a amlinellwyd yn **Nhabl 1**.

4.2. Disgrifiadau o'r Safle

Safleoedd blaenoriaeth uchel

4.2.1 Bradwell – safle blaenoriaeth uchel

Nifer y gweithlu (o fis Ebrill 2017 ymlaen):
117 o staff Magnox

Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol

Cyngor Dosbarth Maldon
Cyngor Sir Essex
Gweithgor Bradwell
Grŵp Partneriaeth Gwaddol Bradwell
Pwyllgor Cyswllt Cymunedol Lleol Bradwell



Gwerth cronus cyllid Cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsodwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012 a 2017: £450,775

Prosiectau y dyfarnwyd dros £10,000 o gyllid cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox iddynt ers 2012

Blwyddyn Ariannol	Mudiad	Prosiect	Cyllid a ddyfarnwyd
2012/13	Cyngor Tref West Mersea	Parc Hamdden Mersea Island	£50,000
2013/16	Cyngor Dosbarth Maldon	Cynllun gweithredu economaidd-gymdeithasol Bradwell	£150,000
2015/16	Siop Gymunedol Bradwell-on-Sea	Siop Gymunedol Bradwell-on-Sea (gosodiadau a chyfarpar)	£25,000
		Is-gyfanswm	£225,000
2016/17	Awyrenfa'r Rhyfel Mawr, Stow Maries	Darganfod Bywyd Gwyllt yn Awyrenfa'r Rhyfel Mawr, Stow Maries	£10,000
2016/17	Cyngor Dosbarth Maldon	Ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Gwaddol Bradwell	£33,000
		Cyfanswm	£268,000

Y prif brosiectau a chynlluniau yn 2016/17:

- Y diweddaraaf am Bartneriaeth Gwaddol Bradwell (BLP):
 - Dyfarnwyd £33,000 i Gyngor Dosbarth Maldon tuag at gost darparu cymorth ysgrifenyddiaeth i'r Bartneriaeth am ddwy flynedd.

- Mae'r themâu yn dal i fod yr un fath ac yn unol â Chynllun Gweithredu Economaidd-Gymdeithasol Bradwell:
 - Twristiaeth – mae'r brand ar gyfer yr ardal wedi'i sicrhau ar gyfer Dosbarth Maldon, gwefan www.visitmaldondistrict.co.uk wedi'i chreu,
 - Sgiliau - edrych ar opsiynau ar gyfer darparu hyfforddiant sgiliau yn lleol
 - Cymorth Busnesau a Chymunedau - mae cyngor a chymorth am ddim ar gael i fusnesau
 - Eiddo Busnes - ymchwilio i opsiynau i gefnogi busnesau ag eiddo addas yn yr ardal briodol yn nosbarth Maldon.
- Mae'r BLP yn dal i gwrdd yn rheolaidd i edrych ar wahanol opsiynau o ran Busnesau a Thwristiaeth, sy'n cynnwys gweithio gyda pherchnogion gwinllannau i ddatblygu'r "Cynnig Gwin".
- Amgueddfa Rhyfel Mawr Stow Maries - Darganfod Bywyd Gwyllt yn Awyrenfa'r Rhyfel Mawr, Stow Maries.
 - Mae'r prosiect hwn yn rhan o brosiect mwy i ddenu twristiaeth i'r safle, ac mae'n canolbwyntio ar fywyd gwyllt y safle drwy gynig cuddfannau i adaregwyr a phobl sydd wrth eu bodd â bywyd gwyllt eu llogi. Mae'r prosiect hefyd yn edrych ar gynig gweithdai addysg bywyd gwyllt i blant ysgol a chlybiau.
 - Rhagwelir y gall y cynnig hwn hefyd arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr sy'n aros yn yr ardal.

Yn ystod 2016/17, darparodd cyllid Magnox o leiaf 10 o gyfleoedd gwirfoddoli a thri chyfle hyfforddiant yn ogystal â chefnogi dros 1,400 o gyfleoedd sgiliau cymunedol ym maes Cymorth Cyntaf. Mae 20 o ysgolion wedi elwa naill ai'n uniongyrchol neu drwy brosiectau eraill a gefnogwyd. Mae dau glwb chwaraeon iau wedi derbyn cyllid hefyd. Mae'r prosiectau a gefnogwyd hefyd wedi llwyddo i sicrhau £45,082 o arian cyfatebol.

SAFLE BLAENORIAETH UCHEL - Bradwell

Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2017/18

Dal i weithio gyda Phartneriaeth Gwaddol Bradwell ar y cynlluniau i leihau'r effaith ar yr economi leol a lleihau nifer y swyddi a gollir yn Bradwell yn y dyfodol, yn gyson â deilliannau Cynllun Gweithredu Economaidd-gymdeithasol Bradwell a dogfen 'Maldon District Economic Prosperity Strategy'.

Ystyried yn llawn, unrhyw gynigion sy'n dod i lawr a fyddai'n lliniaru'r broses o gau'r safle, a ddisgwylir yn 2018.


4.2.2 Dungeness A – safle blaenoriaeth uchel

Nifer y gweithlu (o fis Ebrill 2017 ymlaen):

161 o staff Magnox

Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol

Cyngor Sir Caint
 Cyngor Dosbarth Shepway
 Cyngor Bwrdeistref Ashford
 Cyngor Dosbarth Rother
 Cyngor Sir Dwyrain Sussex
 Grŵp Partneriaeth Romney Marsh
 Bwrdd Marsh Million
 Grŵp Rhanddeiliaid Safle Dungeness
 Tîm Cymunedau Arfordirol New Romney



Cyllid economaidd-gymdeithasol uniongyrchol yr NDA a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2017: £41,250

Gwerth cronus cyllid Cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012 a 2017: £1,525,758

Prosiectau y dyfarnwyd dros £10,000 o gyllid cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox iddynt ers 2012:

Blwyddyn Ariannol	Mudiad	Prosiect	Cyllid a ddyfarnwyd
2012/13		Dim ceisiadau	£0
2013/14	Cyngor Sir Caint	Cronfa Marsh Million	£500,000
2013/14	Partneriaeth Romney Marsh	Cydlynnydd Romney Marsh	£120,000
2013/14	Cyngor Dosbarth Shepway	Unedau Deor Busnes Newydd Romney	£99,709
		Is-gyfanswm	£719,709
2014/15	The Marsh Academy	Prentisiaethau yn yr ardal	£43,000
		Is-gyfanswm	£43,000
2015/16		Dim ceisiadau	£0
		Is-gyfanswm	£0
2016/17	Partneriaeth Romney Marsh	Cydlynnydd Romney Marsh (cyllid 3 blynedd o £20,000 y flwyddyn)	£60,000
2016/17	Cyngor Dosbarth Shepway	Astudiaeth Dichonoldeb Mountfield Road £35,000 a Thîm Cymunedau Arfordirol Cyngor Tref New Romney £5,000	£40,000
2016/17	CineMarsh	I gefnogi creu sinema yn New Romney	£50,000
		Is-gyfanswm	£150,000
		Cyfanswm	£912,709

Y prif brosiectau a chynlluniau 2016/17:

- **Grŵp Partneriaeth Romney Marsh (RMP):** Mae'r RMP yn dal i weithio tuag at gyflawni Cynllun Economaidd-Gymdeithasol Romney Marsh sy'n canolbwyntio ar:
 - Dynnu sylw at rai o heriau economaidd a chymdeithasol sylweddol yr ardal.
 - Dod â phobl at ei gilydd a gwneud y gorau o'r prosiectau rhagorol sy'n cael eu cyflawni'n barod yn Romney Marsh.

- Cynnwys pobl leol a rhoi mwy o ran iddynt chwarae yn eu cymuned leol a'u heconomi leol.
- Darparu fframwaith a strategaeth i ddod â chyllid newydd i'r ardal drwy brosiectau newydd a dulliau gweithredu newydd.

Mae aelodau'r bartneriaeth yn cynnwys Cyngor Sir Caint, Cyngor Dosbarth Shepway (SDC), Cyngor Bwrdeistref Ashford (ABC) a Chynghorau Dosbarth Rother (RDC), Cyngor Sir Essex (ECC), Grŵp Rhanddeiliaid Safle Dungeness, yr NDA a Magnox ymhlith eraill.

Daeth y cyllid tair blynedd cychwynol ar gyfer rôl cydlynedd drwy Gynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox; fodd bynnag, ar gyfer tair blynedd nesaf y cyllid, mae RMP wedi cydnabod budd y rôl hon ac wedi cyflwyno cais llwyddiannus am gyllid gan Magnox o £20,000 y flwyddyn, ynghyd ag arian cyfatebol gan Gyngor Dosbarth Shepway, Cyngor Bwrdeistref Ashford, Cyngor Dosbarth Rother a Chyngor Sir Dwyrain Sussex, i barhau gyda'r rôl am dair blynedd arall.

- Mae **Cronfa Marsh Million** ar gau ar gyfer ceisiadau cyffredinol ar hyn o bryd. Mae Bwrdd Marsh Million yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu'r sefyllfa ynghylch ad-daliadau ac yn edrych ar gyfleoedd a allai fod o fudd i'r ardal, yn unol â gwaith RMPG.
- **Astudiaeth Dichonoldeb Ystâd Ddiwydiannol Mountfield Road New Romney** – Mae SDC yn cyfrannu £40,000 yn ogystal â £35,000 Magnox i asesu'r gofynion seilwaith, paratoi prif gynllun ar gyfer y safle ac ymchwilio i wahanol opsiynau i gael y budd mwyaf posibl o'r tir sydd ar gael.
 - Defnyddiwyd £5,000 yn ychwanegol gan Magnox fel arian cyfatebol ar gyfer Tîm Cymunedau Arfordirol New Romney (NRCCT) i gefnogi strategaeth economaidd i ddenu cyllid gan y Tîm Cymunedau Arfordirol a ffynonellau eraill ar gyfer New Romney.
- Mae **CineMarsh** yn brosiect a gyflwynwyd gan Marsh Academy i sefydlu sinema bach yn New Romney. Mae Magnox wedi cadarnhau cyllid o £50,000 i gefnogi'r prosiect hwn, ar yr amod fod cyllidwyr eraill yn cael eu canfod hefyd.

Yn 2016/17, creodd cyllid Magnox o leiaf 4 cyfle gwaith, gan ddiogelu un swydd a chefnogi naw cyfle gwirfoddoli a saith cyfle hyfforddi. Mae dau o brentisiaid wedi'u cyflogi hefyd. Roedd cyfleoedd hyfforddi drwy Varne Boat Club a Sefydliad IMOS yn golygu bod o leiaf 511 o unigolion wedi cael profiad o rywaint o gyfleoedd a hyfforddiant sgiliau cymunedol. Mae'r ardal wedi cael budd o o leiaf £24,000 o incwm ychwanegol drwy ddigwyddiadau lleol. Mae saith ysgol wedi elwa drwy'r cynllun hwn hefyd. Yn gyffredinol, mae'r prosiectau a gefnogwyd gan Magnox wedi llwyddo i sicrhau £331,307 o arian cyfatebol.

SAFLE BLAENORIAETH UCHEL – Dungeness

Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2017/18:

Dal i weithio gyda Grŵp Partneriaeth Romney yn y dyfodol.

Monitro ac asesu effaith prosiectau mwy i werthuso eu heffeithiolrwydd.

Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid yn y dyfodol i liniaru'r broses o gau'r safle.

4.2.3 Hunterston A – safle blaenoriaeth uchel

Nifer y gweithlu (o fis Ebrill 2017 ymlaen):

150 o staff Magnox

Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol

Llywodraeth yr Alban

Cyngor Gogledd Swydd Aeron (North Ayrshire)

Scottish Enterprise

Cwmni Adfywio Irvine Bay

Grŵp Rhanddeiliaid Safle Hunterston

Grŵp Llywio Adfywiad Hunterston Gogledd Swydd Aeron (North Ayrshire)



Cyllid economaidd-gymdeithasol uniongyrchol yr NDA a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2017: £250,000

Gwerth cronus cyllid Cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012 a 2017: £772,223

Prosiectau y dyfarnwyd dros £10,000 o gyllid cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox iddynt ers 2012:

Blwyddyn Ariannol	Mudiad	Prosiect	Cyllid a ddyfarnwyd
2012/13	Canolfan Gymunedol West Kilbride	Datblygu'r Adain Orllewinol	£20,000
		Is-gyfanswm	£20,000
2013/14	Swyddfeydd ger y Cei yn Ardrossan	Swyddfeydd ger y Cei yn Ardrossan	£375,000
		Is-gyfanswm	£375,000
2014/15	Y Cyngor Astudiaethau Maes	Gorsaf Bioleg y Môr yn Millport	£300,000
		Is-gyfanswm	£300,000
2015/16		Dim ceisiadau	£0
		Is-gyfanswm	£0
2016/17	Castell Portencross	Darparu cyfleusterau toiledau ar gyfer staff ac ymwelwyr	10,000
		Is-gyfanswm	£10,000
		Cyfanswm	£705,000

Y prif brosiectau a chynlluniau yn 2016/17:

- **Castell Portencross.** Mae cyllid Magnox yn cefnogi'r gwaith o osod cyfleusterau toiledau yn y castell er mwyn i wirfoddolwyr sy'n gweithio yno eu defnyddio ac i sicrhau bod y castell yn dal i aros ar agor i'r cyhoedd. Bydd hyn yn arwain at ragor o ymwelwyr yn dod i'r ardal, gydag oddeutu 500 yn ychwanegol o blant ysgol yn ymweld bob blwyddyn.

Yn 2016/17, mae cyllid Magnox wedi cefnogi ysgolion lleol, grwpiau cymunedol gan gynnwys digwyddiadau yng Ngŵyl Penwythnos i'r Teulu Largs; offer chwaraeon ar gyfer timau pêl-droed a grwpiau dawnsio lleol; piano wedi'i hadnewyddu ar gyfer cynulleidfa St Andrews ac mae wedi talu am rafft diogelwch ar gyfer gwasanaeth gwirfoddolwyr Morol Uned Ardrossan. Mae'r prosiectau a gefnogwyd hefyd wedi llwyddo i sicrhau £61,144 o arian cyfatebol.

Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2017/18:

SAFLE BLAENORIAETH UCHEL – Hunterston A
Gweithio gyda Grŵp Llywio Economaidd Hunterston Gogledd Swydd Aeron er mwyn lleihau effaith colli swyddi yn Hunterston A ar yr economi leol.

4.2.4 Trawsfynydd – safle blaenoriaeth uchel**Nifer y gweithlu (o fis Ebrill 2017 ymlaen):**

167 o staff Magnox

Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Cyngor Gwynedd

Menter Môn

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Grŵp Trosolwg Trawsfynydd

Trawsnewid

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Bwrdd Parth Menter Eryri

Grŵp Llandrillo Menai

Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd



Cyllid economaidd-gymdeithasol uniongyrchol yr NDA a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2017: £2,285,000

Gwerth cronus cyllid Cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012 a 2017: £888,084

Prosiectau y dyfarnwyd dros £10,000 o gyllid cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox iddynt ers 2012:

Blwyddyn Ariannol	Mudiad	Prosiect	Cyllid a ddyfarnwyd
2012/13	Coleg Meirion Dwyfor	CaMDA	£360,000
		Is-gyfanswm	£360,000
2013/14	Antur Stiniog	Y Siop, Blaenau Ffestiniog	£40,000
	Gwesty Seren Cyf	Gwesty Seren, Llan Ffestiniog	£50,000
	Cyngor Gwynedd	Llwyddo'n Lleol (Ynys Môn a Gwynedd)	£36,000
	Urdd Gobaith Cymru	Eisteddfod Genedlaethol 2014, Meirionnydd	£35,000
		Is-gyfanswm	£161,000
2014/15	Canolfan Gymunedol Bryncrug	Canolfan Fusnes Bryncrug	£14,459
	Cymdeithas Bysgota Prysor	Datblygu Llyn Trawsfynydd Cam II	£25,825
		Is-gyfanswm	£40,284
2015/16	Cellb	Prosiect sinema ddigidol	£21,280
2015/16	Clwb Pêl-droed Porthmadog	Academi Sgiliau'r Traeth	£40,373
		Is-gyfanswm	£61,563
2016/17	Partneriaeth Awyr Agored	Prosiect 3 blynedd i annog menywod a	£30,000

		merched i fentro i'r sector awyr agored	
2016/17	Grŵp Llandrillo Menai	Cynllun Entrepreneuriaeth Ieuencid 2 flynedd	£15,000
		Is-gyfanswm	£45,000
		Cyfanswm	£667,847

Y prif brosiectau a chynlluniau yn 2016/17:

- Dyfarnwyd £30,000 dros dair blynedd i'r **Bartneriaeth Awyr Agored**, i gynyddu nifer y menywod a merched sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored am resymau iechyd, cymdeithasol ac economaidd. Mae'r prosiect yn cynnig y cyfle i fynd i sesiynau blasu a rhaglenni datblygu er mwyn ennill dyfarniadau cyrff llywodraethu cenedlaethol mewn gweithgareddau awyr agored ac er mwyn dilyn llwybr tuag at waith fel hyfforddwyr llawrydd cymwys lleol yn y sector awyr agored, sector lle nad oes nifer fawr o fenywod yn cael eu cynrychioli yno. Mae'r prosiect yn dilyn y prosiect hynod lwyddiannus 'Llwybrau i Waith', y darparodd yr NDA gyllid gwerth £169,000 iddo yn 2012. Mae cynrychiolydd llwyddiannus o'r rhaglen hon bellach mewn gwaith llawn amser ac yn Swyddog Llwybrau i Waith ar gyfer y prosiect newydd hwn bellach.
- **Canolfan Gymunedol Llanbedr**, yn dilyn gwaith ailwampio neuadd y pentref, pan gododd y gymuned £391,000 ei hun ar gyfer y gwaith, cyfrannodd Magnox £7,000 i osod y cyfleusterau TG a chyfathrebu diweddaraf. Roedd hyn er mwyn cael ystafelloedd cyfarfod gyda'r dechnoleg ddiweddaraf, sy'n denu busnesau newydd o Barth Menter Llanbedr sydd gerllaw, i'w defnyddio. Roedd cyfle i greu swydd Swyddog Datblygu rhan amser.
- **Cynllun Entrepreneuriaeth Ieuencid Grŵp Llandrillo Menai**, gyda £123,000 wedi'i ddyfarnu gan Lywodraeth Cymru a £15,000 gan Magnox, mae Grŵp Llandrillo Menai yn cynnal rhaglen ddwy flynedd wedi'i hanelu at bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed i gyflawni eu llawn botensial drwy greu eu busnes eu hunain. Y cam cyntaf fydd ymgysylltu â dros 3,000 o fyfyrwyr drwy weithgareddau a digwyddiadau yn y colegau. Yna cefnogi 300 o fyfyrwyr i ddatblygu ymhellach drwy gyfleoedd a heriau prawf masnach. Yn y diwedd, meithrin 30 o unigolion gyda chymorth un i un, i ddatblygu eu syniad busnes eu hunain, gyda chyswllt â Gwasanaethau Busnes Cymru.

Yn 2016/17 mae cyllid Magnox wedi cefnogi ysgolion lleol drwy dalu am gyfarpar clybiau garddio a dillad sy'n gwrthsefyll dŵr, tlysau ar gyfer grwpiau chwaraeon a dillad pêl-droed, yn ogystal â marcis ar gyfer Gŵyl Roc Ardudwy; cyllid tuag at Cyfeillion Yr Ysgwrn a oedd yn cynnal gŵyl wythnos i nodi 100 mlynedd ers marwolaeth Hedd Wyn, gan greu 15 o gyfleoedd gwirfoddoli; y Bartneriaeth Awyr Agored sydd wedi darparu 159 o gyfleoedd hyfforddi i fenywod a merched yn y sector awyr agored, i'w hannog i fynd am rolau hyfforddwyr.

Mae'r prosiectau a gefnogwyd hefyd wedi llwyddo i sicrhau £1,030,430 o arian cyfatebol.

Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2017/18:

SAFLE BLAENORIAETH UCHEL – Trawsfynydd
Gweithio gyda Chyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol ynglŷn ag ymyriadau economaidd-gymdeithasol yn y dyfodol ar gyfer Gogledd-orllewin Cymru er mwyn lleihau effeithiau gorffen gweithio yn Nhrawsfynydd.

4.2.5 Wylfa – safle blaenoriaeth uchel

Nifer y gweithlu (o fis Ebrill 2017 ymlaen):

397 o staff Magnox

Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Cyngor Sir Ynys Môn

Menter Môn

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Grŵp Llandrillo Menai

Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa



Cyllid economaidd-gymdeithasol uniongyrchol yr NDA a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2017: £5,870,000

- Yn 2017, dyfarnodd yr NDA £2M ynghyd â Llywodraeth Cymru, Grŵp Llandrillo Menai a Horizon ar gyfer datblygu ac adeiladu'r Ganolfan Beirianeg yn Llangefni.

Gwerth cronus cyllid Cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012 a 2017: £864,287

Prosiectau y dyfarnwyd dros £10,000 o gyllid cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox iddynt ers 2012

Blwyddyn Ariannol	Mudiad	Prosiect	Cyllid a ddyfarnwyd
2012/13	Cyngor Sir Ynys Môn	Prentisiaid Ynys Ynni	£16,000
		Is-gyfanswm	£16,000
2013/14	Cymunedau yn Gyntaf Môn	Rhaglen Sgiliau Saernïaeth yr Academi Hyfforddiant Galwedigaethol	£140,533
2013/14	Chwaraeon Dŵr Gogledd Cymru	Ysgol y Môr Cam II (Môn a Gwynedd)	£32,970
		Is-gyfanswm	£173,503
2014/15	Cyngor Sir Ynys Môn	Gŵyl Feicio Ynys Môn	£60,000
2014/15	Menter Mechell	Siop Gymunedol a Swyddfa Bost Llanfechell	£21,754
		Is-gyfanswm	£81,754
2015/16	Maes Sioe Amaethyddol Môn	Gwelliannau seilwaith	£40,000
2015/16	Menter Môn Morlais	Datblygu Ynni'r Llanw	£300,000
2015/16	Cymunedau yn Gyntaf Môn	Cymunedau yn Gyntaf Môn - Rhaglen Sgiliau Gyrru a Chanolfan Profi Sgiliau Adeiladu	£99,282
		Is-gyfanswm	£439,282
2016/17	Clwb Gymnasteg Gwynjim	Prynu cyfarpar ar gyfer cyfleuster newydd.	£32,000
2016/17	Yr Eisteddfod Genedlaethol	Y Pafiliwn Gwyddoniaeth yn ystod wythnos yr ŵyl	£30,000
2016/17	Cyngor Sir Ynys Môn (Rhaglen Ynys Ynni)	Seilwaith strategol Cam 3	£100,000
2016/17	GeoMon - Mapio Daeareg De Ynys Môn	Prosiect mapio daeareg tair blynedd	£10,500

		Is-gyfanswm	£172,500
		Cyfanswm	£883,039

Y prif brosiectau a chynlluniau yn 2016/17:

- Mae Magnox yn dal i gefnogi Mentor Môn Morlais gydag ail flwyddyn y datblygiad ynni llanw. Mae wyth datblygwr wedi cofrestru ar gyfer y parth oddi ar arfordir Ynys Môn, felly rydym ar y trywydd iawn i sicrhau rhagor o gyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn symud ymlaen i'r cam nesaf.
- Mae rhaglen Teithio i'r Gwaith, Cymunedau yn Gyntaf Môn yn dod yn ei blaen yn dda yn ei hail flwyddyn. Maent wedi pasio'r arolwg i ddod yn ganolfan brawf Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu achrededig, mae ganddynt hyfforddwr gyrru cymwys, maent wedi prynu car y mae modd ei reoli ddwy ffordd ac maent yn hyfforddi unigolion i basio eu prawf theori er mwyn eu helpu i gael gwaith.
- Roedd Cyngor Sir Ynys Môn (Rhoglen Ynys Ynni) yn llwyddiannus yn derbyn cyllid Magnox i barhau gyda gwaith Cam 2 ac ymgymryd â gwaith Seilwaith Strategol Cam 3 yn y pum ardal isod: EZ5 Llangefni; Hen Safle Peboc, Llangefni; EZ3 Parc Busnes Penrhos; Prif Gynllun Porthladd Caergybi a Phrif Gynllun Adfywio Amlwch.
- Bydd Eisteddfod Genedlaethol 2017 yn cael ei chynnal yn Ynys Môn; bydd cyfraniad Magnox o fudd i'r ynys o ran effaith economaidd-gymdeithasol y digwyddiadau hyd at yr eisteddfod a'r wyl ei hun sy'n para wythnos ac a gynhelir ym mis Awst 2017.
- Cyfrannodd Magnox £32,000 i Gwynjim tuag at brynu cyfarpar ar gyfer cyfleuster gymnasteg newydd. Ar y cyd â chyllid gan Gyngor Chwaraeon Cymru, mae'r cyfleuster newydd wedi llwyddo i groesawu 148 o blant ychwanegol, wedi creu cyfleoedd hyfforddi ac wedi rhoi'r cyfle i wirfoddolwyr gymhwyso fel arweinwyr chwaraeon gyda llwybr hyfforddi. Bydd y cyfleuster newydd nawr yn galluogi'r grŵp i gynnal cystadlaethau, gan gynyddu'r manteision economaidd i'r ardal leol.

Yn 2016/17 creodd cyllid Magnox dros 100 o gyfleoedd gwaith, yn bennaf drwy raglen Cymunedau yn Gyntaf Môn, ac mae wedi cefnogi 340 o gyfleoedd gwirfoddoli yn yr Eisteddfod a Chwmni Cymunedol Amlwch Cyf, sydd wedi creu menter busnes newydd, gyda 10 o gyfleoedd gwirfoddoli.

Mae 350 o gyfleoedd hyfforddi wedi'u cefnogi drwy gyfrwng cyrsiau Cymunedau yn Gyntaf Môn, Gwynjim a'r Eisteddfod. Yn gyffredinol, mae'r prosiectau a gefnogwyd gan Magnox wedi llwyddo i sicrhau £4,319,163 o arian cyfatebol.

Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2017/18:

SAFLE BLAENORIAETH UCHEL – Wylfa
Dal i weithio gyda Chyngor Môn, Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol o ran ymyriadau economaidd-gymdeithasol yn y dyfodol ar gyfer Ynys Môn a'r ardaloedd cyfagos ar ôl y cam gwagio tanwydd yn Wylfa.

Safleoedd blaenoriaeth ganolig

Er bod y safleoedd hyn wedi'u dynodi fel rhai blaenoriaeth ganolig, mae'n bwysig nodi, petai prosiect trawsnewid cadarn yn cael ei gyflwyno i Gynllun Economaidd-Gymdeithasol Magnox, sy'n bodloni'r meini prawf, yna byddai'n cael ystyriaeth ddyladwy yn ôl teilyngdod, ochr yn ochr â cheisiadau eraill, waeth beth fo blaenoriaeth y safle.

4.2.6 Chapelcross – safle blaenoriaeth ganolig

Nifer y gweithlu (o fis Ebrill 2017 ymlaen):

218 o staff Magnox

Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol

Llywodraeth yr Alban

Cyngor Dumfries a Galloway

Scottish Enterprise

Grŵp Llywio Adfywio'r Coridor (CoReS)

Grŵp Rhanddeiliaid Safle Chapelcross

Grŵp Llywio Adfywio Annan

Grŵp Llywio Adfywio Gretna

Grŵp Rhanddeiliaid Safle Chapelcross



Cyllid economaidd-gymdeithasol uniongyrchol yr NDA a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2017: £3,900,000

Gwerth cronus cyllid Cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012 a 2017: £193,040

Prosiectau y dyfarnwyd dros £10,000 o gyllid cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox iddynt ers 2012:

Blwyddyn Ariannol	Mudiad	Prosiect	Cyllid a ddyfarnwyd
2012/13		Dim ceisiadau	£0
2013/14		Dim ceisiadau	£0
2014/15	Cyngor Dumfries a Galloway	Prif Gynllun Safle Chapelcross	£20,000
		Is-gyfanswm	£20,000
2015/16		Dim ceisiadau	£0
2016/17		Dim ceisiadau	£0
		Cyfanswm	£20,000

Y prif brosiectau a chynlluniau yn 2016/17:

- **Youth Beatz World of Wonka**, digwyddiad blynyddol am ddim a gynhelir gan Gyngor Dumfries a Galloway sy'n denu dros 12,000 o bobl ifanc, sy'n rhoi sylw i hunanladdiad a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol drwy gyfrwng cerddoriaeth a gweithdai. Cefnogodd Magnox y gweithdy drwy gyfrannu £2,000 tuag at y digwyddiad.

- **Tour of Britain yn Dumfries a Galloway**, roedd y gost gyffredinol yn £155,000 a chyfrannodd Magnox £4,000 tuag at y costau hyfforddi a'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn Castle Douglas ar gyfer trigolion Annadale ac Eskdale. Denodd y digwyddiad hwn dros £241,000 o fudd economaidd i'r ardal.
- **Partneriaeth Chwaraeon Annadale ac Eskdale - Calendr PEPAS (Gweithgarwch Corfforol, Addysg Gorfforol a Chwaraeon)**, cyfrannodd Magnox £3,000 tuag at y prosiect blynyddol gwerth £7,000, sy'n darparu cyfleoedd hyfforddi yn y gweithgareddau chwaraeon a gynhelir drwy gydol y flwyddyn.

Yn 2016/17, cefnogodd cyllid Magnox 330 o ysgolion gyda gweithgareddau chwaraeon drwy gyfrwng Calendr PEPAS. Darparodd perfformiadau Youth Beatz World of Wonka 107 o gyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer pobl ifanc, ac enillodd 30 ohonynt gymwysterau hyfforddi i helpu gyda phroblemau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol ymhlith pobl ifanc. Yn gyffredinol, mae'r prosiectau a gefnogwyd gan Magnox wedi llwyddo i sicrhau £260,125 o arian cyfatebol.

Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2017/18:

SAFLE BLAENORIAETH GANOLIG - Chapelcross

Gweithio gyda Grŵp Llywio Adfywio'r Coridor (CoReS) er mwyn lleihau effaith colli swyddi yn Chapelcross yn y dyfodol ar yr economi leol.

4.2.7 Hinkley Point A – safle blaenoriaeth ganolig

Nifer y gweithlu (o fis Ebrill 2017 ymlaen):
162 o staff Magnox

Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol:

Cyngor Sir Gwlad yr Haf
Cyngor Gorllewin Gwlad yr Haf
Cyngor Dosbarth Sedgemoor
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Hinkley Point
Business West
Nuclear South East



Cyllid economaidd-gymdeithasol uniongyrchol yr NDA a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2017: £450,000

Gwerth cronus cyllid Cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012 a 2017: £93,945

Prosiectau y dyfarnwyd dros £10,000 o gyllid cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox iddynt ers 2012:

Blwyddyn Ariannol	Mudiad	Prosiect	Cyllid a ddyfarnwyd
2012/13	Ymddiriedolaeth Addysg Bridgwater	Changing Life Opportunities	£37,550
2013/14	Siop Gymunedol Spaxton	Prosiect datblygu	£20,000
		Is-gyfanswm	£57,550
2015/16		Dim ceisiadau	£0
2016/17		Dim ceisiadau	£0
		Cyfanswm	£57,500

Yn 2016/17 derbyniodd tri sefydliad chwaraeon gyllid gan Magnox i ddarparu cyfarpar a dillad. Cafodd dau gwrs hyfforddi cydnabyddedig eu cyllido hefyd. Cefnogwyd digwyddiad busnes hefyd yn ogystal â phrosiect gwella'r amgylchedd. Llwyddodd y prosiectau hyn, ymhlith rhai eraill, i sicrhau £45,480 o arian cyfatebol.

SAFLE BLAENORIAETH GANOLIG – Hinkley Point A

Cadw briff gwyllo o'r cyfleoedd a'r datblygiadau yn yr ardal.

4.2.8 Winfrith – safle blaenoriaeth ganolig

Nifer y gweithlu (o fis Ebrill 2017 ymlaen):

169 o staff Magnox

Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol

Cyngor Dosbarth Purbeck

Cyngor Sir Dorset

Grŵp Rhanddeiliaid Safle Winfrith

Coleg Bridgwater/Weymouth

Partneriaeth Fenter Leol Dorset (LEP)



Gwerth cronus cyllid Cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsodwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012 a 2017: £20,176

Prosiectau y dyfarnwyd dros £10,000 o gyllid cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox iddynt ers 2012:

Blwydd yn Ariannol	Mudiad	Prosiect	Cyllid a ddyfarnwyd
2016/17		Dim ceisiadau llwyddiannus	£0
		Is-gyfanswm	£0
		Cyfanswm	£0

Yn 2016/17 hwylusodd cyllid Magnox 85 o gyfleoedd gwirfoddoli ar draws 50 o ysgolion yn yr ardal. Rhoddwyd cyllid hefyd i gefnogi 10 ysgol arall i wella'r dysgu a phrynu cyfarpar. Cafodd dau sefydliad chwaraeon help hefyd i brynu dillad a chyfarpar. Llwyddodd y prosiectau hyn i sicrhau £3,550 o arian cyfatebol.

SAFLE BLAENORIAETH GANOLIG – Winfrith

Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2017/18:

Cadw briff gwyllo o'r datblygiadau a'r cyfleoedd yn yr ardal. Wedi cysylltu â Chyngor Dosbarth Purbeck yn barod er mwyn edrych ar brosiectau economaidd posibl.

Safleoedd Blaenoriaeth Isel

SAFLEOEDD BLAENORIAETH ISEL

Berkeley, Harwell, Oldbury a Sizewell

Cyfleoedd / amcanion ar gyfer 2017/18:

Mae safleoedd blaenoriaeth isel fel arfer yn cael eu cefnogi ar lefel cymydog da (ceisiadau hyd at £1,000), ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i hyn ac mae cyllid wedi'i ddyfarnu yn y blynyddoedd diwethaf i nifer o geisiadau mwy sylweddol.

Mae'r canlynol yn crynhoi'r gefnogaeth honno.

Bydd ceisiadau'n dal i gael eu hystyried yn ôl teilyngdod pob achos unigol ac i ba raddau y maent yn bodloni meini prawf economaidd-gymdeithasol Magnox.

Cadw briff gwylio o'r datblygiadau a'r cyfleoedd yn yr ardal.

4.2.9 Safle Berkeley

Nifer y gweithlu (o fis Ebrill 2017 ymlaen):

136 o staff Magnox

Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol:

Cyngor Sir Swydd Gaerloyw
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Berkeley
Business West



Cyllid economaidd-gymdeithasol uniongyrchol yr NDA a fuddsodwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2017: 206,782

- £206,782 - Coleg De Swydd Gaerloyw a Stroud (SGS) Green. Cyllid i brynu offer peirianeg ar gyfer Gweithdai Peirianeg a fydd yn cael eu gosod ym mis Gorffennaf 2017, gyda'r safle'n agor yn swyddogol ym mis Ionawr 2018.

Gwerth cronus cyllid Cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsodwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012 a 2017: £78,248

Y prif brosiectau a chynlluniau yn 2016/17:

Yn 2016/17, galluogodd cyllid Magnox 85 o gyfleoedd i bobl wirfoddoli a chymryd rhan; mae cyllid hefyd wedi cefnogi o leiaf 79 aelod o'r gymuned i ddysgu rhywbeth newydd. Cefnogwyd dau ddiwyddiad busnes i gefnogi myfyrwyr gyda'u dewisiadau gyrfa, a chafodd 21 o ysgolion fudd o hynny. Talwyd am gyfarpar newydd i ysgol arall hefyd. Derbyniodd pedwar unigolyn hyfforddiant chwaraeon achrededig gyda chymorth Magnox a'r llynedd, llwyddodd y ceisiadau i sicrhau £51,050 o arian cyfatebol.

4.2.10 Harwell

Nifer y gweithlu (o fis Ebrill 2017 ymlaen):

241 o staff Magnox

Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol:

Cyngor Sir Swydd Rydychen
Cyngor Dosbarth Vale of White Horse
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Harwell



Gwerth cronus cyllid Cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsodwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012 a 2017: £19,872

Y prif brosiectau a chynlluniau yn 2016/17:

- Sefydlwyd **Parc Arloesi a Gwyddoniaeth Harwell** yn 2000 ac mae'n dal i ehangu. Erbyn hyn mae dros 5000 o bobl yn gweithio mewn tua 200 o sefydliadau sy'n canolbwyntio ar feysydd masnachol amrywiol gan gynnwys gofal iechyd, dyfeisiau meddygol, y gofod, systemau canfod, cyfrifiadura, mentrau gwyrdd a deunyddiau newydd.
- **Mae chwarter o ardal drwyddedig wreiddiol Harwell wedi cael ei dad-drwyddedu (2014).** Mae un ardal ar y ffin ddwyreiniol, ger tir sydd eisoes wedi cael ei ryddhau wedi dechrau cael ei datblygu'n barod i greu cyfleusterau gwyddoniaeth/technoleg newydd; mae hwn yn rhan o Barth Menter Science Vale UK.

Yn y 12 mis diwethaf, roedd gan Harwell wyth cais llwyddiannus a ddaeth o dan y Cynllun Cymydog Da, a oedd yn dod i gyfanswm o £4,872. Mae canlyniadau'r prosiectau hyn wedi cefnogi 45 o gyfleoedd gwirfoddoli a chynnwys y gymuned mewn 13 o ysgolion. Llwyddodd y cymorth hwn i sicrhau £11,028 o arian cyfatebol.

4.2.11 Oldbury

Nifer y gweithlu (o fis Ebrill 2017 ymlaen):

Canolfan Dechnegol Oldbury 236 o Staff Magnox

Safle Oldbury 159 o Staff Magnox

Cyfanswm o 395 o staff Magnox

Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol:

Cyngor De Swydd Gaerloyw
Business West
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Oldbury



Gwerth cronus cyllid Cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsodwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012 a 2017: £70,658

Prosiectau y dyfarnwyd dros £10,000 o gyllid cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox iddynt ers 2012:

Blwyddyn Ariannol	Mudiad	Prosiect	Cyllid a ddyfarnwyd
2012/13	Clwb Pêl-fasged Bristol Storm	Storming the Streets	£15,000
2015/16		Dim ceisiadau	£0
		Is-gyfanswm	£15,000
2016/17		Dim ceisiadau	£0
		Cyfanswm	£15,000

Yn 2016/17 roedd y cyllid a dderbyniwyd wedi galluogi cynnal gweithgareddau STEM ar draws pum ysgol, gydag un arall yn derbyn cyfarpar i helpu gyda phrosiectau gwyddoniaeth. Roedd y £3,444 o gyllid a ddyrannwyd i ymgeiswyr llwyddiannus wedi cael gwerth £12,650 o arian cyfatebol o ffynonellau eraill.

4.2.12 Sizewell A

Nifer y gweithlu (o fis Ebrill 2017 ymlaen):

201 o staff Magnox

Rhanddeiliaid economaidd-gymdeithasol:

Cyngor Sir Suffolk
Cyngor Dosbarth Arfordir Suffolk
Cyngor Dosbarth Waveney
Grŵp Rhanddeiliaid Safle Sizewell



Cyllid economaidd-gymdeithasol yr NDA a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2005 a 2017: £25,000

Gwerth cronus cyllid Cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox a fuddsoddwyd mewn prosiectau lleol rhwng 2012 a 2017: £42,048

Y prif brosiectau a chynlluniau yn 2016/17:

- Roedd **Suffolk Coast Business** wedi derbyn £9,929 gan Magnox yn flaenorol ac yn 2016/17 gwelwyd uchafbwyntiau'r digwyddiadau'n cael eu cynnal ledled yr ardal. Bydd y canlyniadau a'r adborth o'r rhain yn helpu i fod yn sail ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol i gefnogi busnesau yn yr ardal.

Yn 2016/17, cefnogwyd tair ysgol i brynu cyfarpar dysgu yn yr awyr agored, offerynnau cerdd a chyfarpar i ddatblygu ystafell babanod. Derbyniodd dau sefydliad chwaraeon gymorth i brynu cyfarpar a dillad pêl-droed. Cefnogwyd arddangosfa ffotograffiaeth a oedd yn bwysig yn lleol hefyd. Llwyddodd y prosiectau hyn i sicrhau £9,000 o arian cyfatebol o ffynonellau eraill a drwy weithgareddau codi arian.

5. Gofal a Chynnal a Chadw

Yn unol â strategaeth yr NDA, bydd priodoldeb, argaeledd a lefel y cymorth economaidd-gymdeithasol i safleoedd wrth iddynt gyrraedd y cam gofal a chynnal a chadw yn cael eu cytuno fesul achos unigol ac yn cael eu trafod gyda'r NDA a rhanddeiliaid.

Bydd y cymorth economaidd-gymdeithasol a'r trefniadau wrth i safleoedd agosáu at y cam gofal a chynnal a chadw a'i gyrraedd yn cael eu hasesu a byddant:

- Yn ystyried ardal leol pob safle, amserlenni tuag at segurddod.
- Yn disgrifio'r opsiynau ac yn nodi pa gymorth fydd ar gael / na fydd ar gael mwyach.
- Yn nodi pa bryd y byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid e.e. ~12mis cyn dyddiad gofal a chynnal a chadw y safle.

6. Monitro ac adrodd

Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynllun economaidd-gymdeithasol treigl tair blynedd, cytunwyd ar fesurau perfformiad a threfniadau adrodd priodol gyda'r NDA er mwyn olrhain cynnydd tuag at yr amcanion a'r targedau a amlinellwyd yn y cynllun economaidd-gymdeithasol hwn.

Bydd y cynllun economaidd-gymdeithasol yn cael ei adolygu'n flynyddol o leiaf.

7. Cynnydd yn erbyn y targedau yn 2016/17

7.1. Cyflogaeth – gan ffafrio creu swyddi gwerth uwch

- Rydym yn dal i barhau gyda'n gwaith ar raglen i drawsnewid y gadwyn gyflenwi a llwyddwyd i gyflawni'r cam cyntaf ar amser. Mae hyn wedi cynnwys diweddaru'r cynnwys ar dudalennau gwe cyflenwyr Magnox, gan gynnwys cyhoeddi ein Cynllun Caffael bob mis, ein '20 Uchaf' o ran contractwyr a gwybodaeth am safonau a'r hyn a ddisgwylir gan ein cyflenwyr. Hefyd, rydym wedi hyrwyddo ein cynllun caffael ar ein cyfryngau cymdeithasol, lle mae nifer fawr o ddefnyddwyr busnes yn ein dilyn ni. Adroddir am wariant drwy'r gadwyn gyflenwi yn rheolaidd i'r NDA. Ystyrir cyfleoedd mentora ar gyfer cyflenwyr ar ôl i ni orffen cyfuno'r Gadwyn Gyflenwi a Chaffael. Rydym yn cynnwys gwaith mentora yn ein cynllun gweithredu ar gyfer BBaCh, felly mae wedi cael ei dynnu o'r cynllun hwn.
- Fe wnaethom anfon tîm mawr o arbenigwyr caffael i ddigwyddiad Cadwyn Gyflenwi'r NDA ym mis Tachwedd 2016 gan ddarparu siaradwyr ar gyfer rhaglen y prynhawn. Rydym yn dal i gwrdd â Grwpiau Llywio BBaCh bob chwarter mewn dau ranbarth, ac rydym hefyd wedi cytuno i ddarparu siaradwr ar gyfer Fforwm Niwclear NW yn ddiweddarach eleni.
- Mae'n anodd mesur faint o bobl sy'n sefydlu eu hunain yn hunangyflogedig ar ôl iddynt adael y busnes, ond mae 108 o weithwyr wedi mynychu gweithdai i'w helpu i fod yn hunangyflogedig mewn rhyw ffordd.
- Nid ydym wedi comisiynu unrhyw waith ymchwil gwybodaeth am y farchnad leol eto. Fodd bynnag, mae Magnox wedi ymgysylltu â sefydliadau ystâd niwclear drwy gydol y rhaglen recriwtio. Rhoddir gwybod i Magnox am gyfleoedd gwaith ar draws yr ystâd a chânt eu hysbysebu ar y fewnrwyd drwy Penna, ac mae'r un peth yn wir am unrhyw swyddi gwag lleol y cawn wybod amdanynt. Mae Penna hefyd yn cael gwybod am gyfleoedd adleoli, secondiadau a hyfforddiant lleol. Mae manylion holl weithwyr Magnox yn cael eu rhoi yn adran Datrysiaid Cadw Talent (TRS) y wefan; mae hyn yn golygu bod modd rhannu'r wybodaeth ar eu CV â chyflogwyr lleol eraill a'r rhwydwaith o sefydliadau partner.

7.2. Addysg / sgiliau – i gefnogi datgomisiynu a glanhau ac arallgyfeirio i sectorau eraill

- Rhoddwyd rhaglen Rheoli Talent y cwmni ar gyfer staff technegol a phroffesiynol ar waith ym mis Tachwedd 2016. Mae cynlluniau olyniaeth ar waith ac maent wedi'u hadolygu yn ôl Swyddogaeth/Rhaglen/Safle. Mae gennym ni bellach brosesau cyffredin ar draws y busnes ar gyfer hyfforddi ac awdurdodi trefniadau ac mae'r E.Academi ar gael i'r holl staff. Rydym hefyd yn cynnal Dadansoddiad o Anghenion Dysgu a fydd yn arwain at ragor o resymoli ac yn hyrwyddo cysondeb ar draws pob safle.
- Sefydlwyd proses ar gyfer cofrestru diddordeb mewn trosglwyddo i sefydliadau corff rhiant a chafodd yr holl weithwyr wybod am hyn ddiwedd 2015. Cafwyd wyth cynnig ffurfiol o waith gyda sefydliad corff rhiant erbyn diwedd Ch4 2016/17
- Mae Magnox yn dal i weithio ar y cyd gyda NSAN ar Nuclear Trailblazers a gyda Cogent ar y gwaith mapio safonau prentisiaethau. Mae Magnox hefyd yn gweithio fel rhan o brosiect canolfan prentisiaethau Oxfordshire Advanced Skills (OAS), sy'n fenter gydweithio rhwng UKAEA a STFC o ran cynhyrchu prentisiaethau uwch ar gyfer y gymuned niwclear a STEM leol. Magnox hefyd oedd y cyflogwr cyntaf i roi prentis (o Harwell) yn OAS.
- Mae aelodau o'r tîm Adnoddau Dynol wedi mynd i amrywiaeth eang o gyfarfodydd perthnasol, e.e. Cyfarfodydd y Grŵp Cynghori ar Safonau, Cadeirio cyfarfod rhanbarthol NSAN, cyfarfodydd NDA ac SFA i drafod rhaglenni prentisiaethau a'r lefi prentisiaethau.
- Mae rhestr wedi cael ei chreu sy'n amlinellu'r rhaglenni prentisiaethau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar draws MX a Cavendish.

7.3. Seilwaith economaidd a chymdeithasol – gan gynnwys adfer a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol a naturiol

- Mae Magnox yn dal i fynd i amrywiaeth eang o gyfarfodydd gydag awdurdodau lleol a sefydliadau datblygu, ei hun ac ar y cyd â'r NDA.
- Rydym wedi dal i weithio gyda'r NDA a darparwyr rhanbarthol ar nifer o gynlluniau mawr, gan gynnwys rhaglen ynni tonnau a llanw Ynys Môn, Mentor Môn Morlais, a chynllun benthyciadau a grant busnes Marsh Million yn Romney Marsh. Mae rhagor o fanylion ar gael ar y tudalennau penodol i'r safleoedd yn yr adroddiad hwn. Rhyddhawyd safle Labordai Berkeley i Goleg De Caerloyw a Stroud er mwyn ei ddatblygu ymhellach yn gampws sgiliau peirianeg.
- Rhoddir sylw i lefelau'r arian cyfatebol a'r manteision economaidd-gymdeithasol a gafwyd ar dudalennau unigol y safleoedd.

7.4. Annog arallgyfeirio i ddiwydiannau a sectorau eraill, gan gynnwys cefnogaeth i'r gadwyn gyflenwi leol

Mae E.Academi'r cwmni wedi'i ddatblygu er mwyn galluogi unigolion yn y busnes i gofnodi'r cymorth y maent yn eu rhoi ar gyfer gweithgareddau addysgol lleol/STEM ac mae llawer o sylw mewnol yn cael ei roi ar annog staff i gymryd rhan yn y digwyddiadau hyn.

7.5. Targedau ar gyfer y dyfodol

Sylwch fod geiriad yr adran ar dargedau wedi'i addasu er mwyn egluro beth yw nod y cynllun hwn, a sut rydym yn mesur ein hunain. Rydym yn gweithio gyda'r NDA i wella'r targedau

hyn ymhellach, ac i'w gwneud yn fwy CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol)

Atodiad 1 – Matrics blaenoriaethu

Matrics blaenoriaethu cyllid economaidd-gymdeithasol Magnox Mai 2016

Mae'r wybodaeth ystadegol y mae'r tabl hwn wedi'i seilio arni yn cael ei hadolygu yn rheolaidd. Felly bydd y tabl blaenoriaethau fel rheol, yn cael ei ddiweddarau bob tair blynedd, neu ar ôl trobwynt arwyddocaol ar y safle, e.e. ar ôl i safle ddod o dan gynllun gofal a chynnal a chadw.

Y Safle	Hunterston A	Chapelcross	Dungeness A	Bradwell	Sizewell A	Oldbury	Berkeley	Hinkley P A	Wylfa	Trawsfynydd	Harwell	Winfrith
Safle Blaenorol Safle 2012-15	Canolig	Canolig	Uchel	Uchel	Isel	Isel	Isel	Isel	Canolig	Uchel	Amh.	Amh.
Proffil y gweithlu presennol fel y saif fis Ebrill 2016 should this be 2017?	146	225	170	127	191	159 safle ³ 236 OTC	136 safle ³	162	494	156	178	182
Gofal a Chynnal a Chadw Dyddiad Cyflwr Terfynol interim *1	2022/3	2028	2027	2016-19	2027	2027	2021-22	2025-27	2025-26	2027-28	2027-28	2022-23
2016 -19 = 3 phwynt 2020 -23 = 2 bwynt 2024 + = 1 pwynt	2	1	1	3	1	1	2	1	1	1	1	2
Poblogaeth oed gweithio 2014	84,600	90,200	65,200	37,700	71,100	171,800	35,000	34,300	41,000	74,100	76,800	26,300
% di-waith 2014-15	9.3%	4.4%	4.9%	3.4%	2.6%	3.6%	3.1%	2.8%	5.7%	5.3%	2.6%	2.5%
7.00% + = 3 phwynt 5.00 - 7.00% = 2 bwynt Dan 5.00 % = 1 pwynt	3	1	1	1	1	1	1	1	2	2	1	1
GVA rhanbarthol y pen - Cyfartaledd Cenedlaethol (CC) £24,958	£13,546	£17,343	£20,006	£19,585	£20,750	£24,342	£24,342	£19,648	£13,162	£18,608	£30,485	£19,719
30-50% yn is na'r CC = 3 phwynt 20% yn is na'r CC = 2 bwynt 10% yn is na'r CC = 1 pwynt	3	3	1	2	1	0	0	2	3	2	0	1
Safle Mynegai Amddifadedd Lluosog - 1 yw'r mwyaf difreintiedig Rhanbarthol %	3953 6505 60.76%	4363 6505 67.07%	9822 32,844 29.90%	18,085 32,844 55.06%	13,426 32,844 40.87%	21,562 32,844 65.64%	23,249 32,844 70.78%	11,380 32,844 34.64%	980 1909 51.33%	1174 1909 61.49%	27,839 32,844 84.76%	18,034 32,844 54.90%
10-35% = 3 phwynt 35-55% = 2 bwynt 55-65% = 1 pwynt	1	1	3	1	2	0	0	3	2	1	0	2
Pellter o'r prif gyflogaeth	Glasgow 37 milltir	Sellafield 63 milltir	Caergaint 36 milltir	Chelmsford 25 milltir	Ipswich 28 milltir	Bryste 20 milltir	Bryste 22 milltir	Bryste 47 milltir	Caer 93 milltir	Caer 60 milltir	Rhydychen 15 milltir	Southampton 52 milltir
Hyd at 30 milltir = 1 pwynt 30 – 50 milltir = 2 bwynt Dros 50 milltir = 3 phwynt	2	3	2	1	1	1	1	2	3	3	1	3
Cyllid Magnox/RSRL 2012-16 *2 Cyllid uniongyrchol yr NDA 2005-16 Cyfanswm	£756,440 £250,000 £1,006,440	£176,702 £3,900,000 £4,076,702	£1,358,378 £41,250 £1,399,628	£401,168 0 £401,168	£39,971 £25,000 £64,971	£67,214 0 £67,214	£64,918 £206,782 £271,700	£87,756 £450,000 £537,756	£671,926 £3,870,000 £4,541,926	£816,334 £2,285,000 £3,101,334	£15,000 Amh. £15,000	£15,000 Amh. £15,000
Safleoedd blaenoriaeth Uchel/Canolig yn unig Hyd at £500,000 = 4 pwynt Hyd at £1.5M = 3 phwynt £1.5 - £3.5M = 2 bwynt Dros £3.5M = 0 pwynt	3	0	3	4	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	0	2	Amh.	Amh.
Is-gyfanswm	14	9	11	12	6	3	4	9	11	11	3	9

Y Safle	Hunterston A	Chapelcross	Dungeness A	Bradwell	Sizewell A	Oldbury	Berkeley	Hinkley P A	Wylfa	Trawsfynydd	Harwell	Winfrith
Is-gyfanswm a gariwyd drosodd	14	9	11	12	6	3	4	9	11	11	3	9
Ffactorau allanol / cyfleoedd	Cynllun Cyflogaeth leuenctid Menter Irvine Parth	Prosiect Beyond Chapelcross Parc Diwydiannol Annan Datblygu Safle Chapelcross	Cronfa Marsh Million Partneriaeth Romney Marsh Canolfan Fusnes Romney Marsh	Cynllun Gweithredu asesiad o effaith economaidd-gymdeithasol Bradwell Bradwell B Partneriaeth Gwaddol Gorsaf Bŵer Bradwell	Sizewell C	Oldbury B Coleg Stroud a De Caerloyw	Coleg Stroud a De Caerloyw Oldbury B	Hinkley Point C Coleg Stroud a De Caerloyw	Wylfa Newydd Boeler biomas Pentref Hamdden Ynni'r Llanw Morlais	Parth Menter Eryri Adweithyddion Modiwlwr Bach Canolfan Awyrofod Eryri	Parth Menter UK Science Vale	Parth Menter Purbeck
Dyddiad cynhyrchu adeilad niwclear newydd	G	G	G	Ddim yn gwybod	2025	Ddim yn gwybod	G	2025	2020-25	G	G	G
Dyddiad gofal a chynnal a chadw safle EDF B	2023	G	2028	G	2035	G	G	2023	G	G	G	G
Cyfanswm y Pwyntiau	14	9	11	12	6	3	4	9	11	11	3	9
Safle Newydd y Safle 2016-19	Hunterston A Uchel	Chapelcross Canolig	Dungeness A Uchel	Bradwell Uchel	Sizewell A Isel	Oldbury Isel	Berkeley Isel	Hinkley Point A Canolig	Wylfa Uchel	Trawsfynydd Uchel	Harwell Isel	Winfrith Canolig

*¹ Yn ddarostyngedig i'r NDA yn dilyn yr rhaglen a chyllid a geir yn y dyfodol. *² gan gynnwys ymrwymadau blynyddoedd yn y dyfodol ar gyfer prosiectau nifer o flynyddoedd

*³ Ffigurau staff wedi'u haddasu o ffigurau 2016 i adlewyrchu symud y swyddfa cymorth i Ganolfan Dechnegol Oldbury

Safle'r safle yng Nghynllun economaidd-gymdeithasol Magnox 2016-19:

Safleoedd cyllid blaenoriaeth uchel (11-15 pwynt) Bradwell, Hunterston A, Dungeness A, Trawsfynydd, Wylfa

Safleoedd cyllid blaenoriaeth ganolig (7-10 pwynt) Chapelcross, Hinkley Point A, Winfrith

Safleoedd cyllid blaenoriaeth isel (1-6 pwynt) Berkeley, Harwell, Oldbury, Sizewell A

Ffynhonnell y data:

Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban 2012, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, Mynegai Amddifadedd Lluosog Lloegr 2015 – Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar gyfer cod post y safle Swyddfa Ystadegau Gwladol - Regional Gross Value Added NUTS3 Data 2014.

Nomis Official Labour Market Statistics – Working age population (16 – 64) in the site postcode's County in 2014, % of working age population unemployed January – December 2015

Cynllunio Llwybr RAC

Atodiad 2 – Manyleb / contract y cleient

6.8	<p>Galluogwyr Critigol: Economeg gymdeithasol: Helpu i greu economïau lleol cynaliadwy, dynamig i gymunedau sy'n byw ger safleoedd Cyfeirnod SOD: SMS/TS/F4/SOD001 (Fersiwn V2 Chwefror 2012)</p>	<p>Cefnogi Strategaeth yr Awdurdod i ystyried canlyniadau economaidd-gymdeithasol ei gynlluniau, ymgysylltu ag asiantaethau datblygu economaidd, darparu cefnogaeth ariannol i'r Contractwr ar gyfer gwariant economaidd-gymdeithasol a darparu cefnogaeth cyllid economaidd-gymdeithasol uniongyrchol. Bydd y Contractwr yn ymrwmo digon o adnoddau dynol ac ariannol i wneud y canlynol, gan fodloni'r Awdurdod yn rhesymol:</p> <p>6.8(a) cymhwyso'r egwyddorion a'r systemau cymeradwyo a gytunwyd yn flaenorol gan yr Awdurdod ar gyfer unrhyw gefnogaeth economaidd-gymdeithasol;</p> <p>6.8(b) gweithio i gefnogi amcanion economaidd-gymdeithasol yr Awdurdod, fel y'u nodwyd ym Mholisi Economaidd-gymdeithasol yr Awdurdod, drwy ymgysylltu â'r Awdurdod, Awdurdodau Lleol, asiantaethau datblygu a chyrff priodol eraill sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Economaidd-gymdeithasol treigl tair blynedd yn cael eu paratoi mewn partneriaeth â'r Awdurdod, yr ymgynghorir arnynt â rhanddeiliaid a'u bod yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod a'u bod yn unol â'r gofynion a nodir ym Mholisi Economaidd-gymdeithasol yr Awdurdod ac yn adran(nau) economaidd-gymdeithasol Cynllun Perfformiad yr LTP;</p> <p>6.8(c) paratoi, ymgynghori a chyhoeddi adolygiad blynyddol o berfformiad economaidd-gymdeithasol o'i gymharu â Chynllun Perfformiad yr LTP y cyfeirir ato yn 6.8(b) uchod; dylai'r cynllun gynnwys amcanion clir, canlyniadau dymunol, targedau CAMPUS a mesurau perfformiad;</p> <p>6.8(d) dylanwadu, gweithio gydag asiantaethau adfywio/datblygu economaidd lleol a chenedlaethol a'u cynorthwyo i gyflawni eu hamcanion drwy ddatblygu a chyflawni cynllun economaidd-gymdeithasol ategol;</p> <p>6.8(e) blaenoriaethu ei ymyriadau economaidd-gymdeithasol yn ôl yr amserlen ar gyfer Segurdod ar safleoedd a'r prif amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn yr ardal teithio i'r gwaith;</p> <p>6.8(f) Er eu bod yn ymwybodol o 6.8(e) uchod, dylai'r cynlluniau ystyried y canlynol o leiaf:</p> <ul style="list-style-type: none">[i] cadw sgiliau mewn ardaloedd/trosglwyddo sgiliau o'r safleoedd i swyddi mewn cymunedau lleol;[ii] trosglwyddo'r hyn a ddysgwyd o'r Sefydliad Corff Rhiant i'r Contractwr Magnox a'r Contractwr RSRL er mwyn datblygu gweithlu mwy amrywiol a medrus;[iii] datblygu cynllun prentisiaid, gan gynnwys prentisiaid cymunedol;[iv] gwneud y gorau o botensial/capaciti cadwyni cyflenwi lleol i ymgeisio am waith o safleoedd;[v] ymgysylltu â sefydliadau addysg lleol, cefnogi cwricwla a chael unigolion i anelu'n uwch;
-----	--	--

		<p>[vi] cefnogi swyddogaethau sy'n deillio o'r safleoedd i'r economi leol fel busnesau bach a chanolig; ac</p> <p>[vii] adleoli staff/swyddfeydd/busnesau cysylltiedig yn yr ardal teithio i'r gwaith ar gyfer safleoedd unigol;</p> <p>6.8(g) cyfathrebu â gweithwyr ac undebau llafur i ddatblygu, ar yr adeg briodol, cynlluniau trosglwyddo'r gweithlu.</p> <p>6.8(h) datblygu cynlluniau trosglwyddo unigol a rhaglenni hyfforddiant/cefnogaeth ar gyfer trosglwyddo fel y bo'n briodol;</p> <p>6.8(i) gweithio gyda'r gadwyn gyflenwi i ddarparu gwybodaeth a'u cefnogi â'u cynlluniau trosglwyddo gweithlu eu hunain;</p> <p>6.8(j) sicrhau bod copïau o'r Cynlluniau Adnoddau Blyneddol a gynhyrchwyd ar gael i sefydliadau rhanddeiliaid priodol; a</p> <p>6.8(k) cydweithio i ddatblygu ac arwyddo Cytundeb Partneriaeth Economaidd-gymdeithasol rhwng y rhanddeiliaid a'r Awdurdod i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Datblygu Economaidd-gymdeithasol. Bydd y cytundeb hwn yn egluro sut y mae'r partïon yn bwriadu cydweithredu a chydweithio er mwyn cyflawni gofynion gweithgareddau rhanddeiliaid a gweithgareddau economaidd-gymdeithasol.</p>
6.8.1	Gofyniad Rhaglen y Cwmni Trwydded Safle (Magnox) Datblygu cynlluniau sy'n addas i safleoedd Magnox	<p>Bydd y Contractwr yn:</p> <p>6.8.1(a) blaenoriaethu meysydd i'w cefnogi. Dylai'r cynllun(iau) sy'n cael eu paratoi a'u cynnal gan y Contractwr yn unol â Gofyniad 6.8 uchod ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> [i] cynlluniau economaidd-gymdeithasol Magnox; [ii] cynlluniau Datblygu Economaidd-gymdeithasol lleol; [iii] argaeledd tir cyfagos, sy'n eiddo i'r Awdurdod, i'w werthu er budd economaidd-gymdeithasol; [iv] y prif amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn ardal pob safle Magnox; [v] canlyniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol; [vi] cadw sgiliau mewn ardaloedd lleol/trosglwyddo sgiliau o bob Safle Magnox i gymunedau lleol; [vii] trosglwyddo'r hyn a ddysgwyd o'r Sefydliad Corff Rhiant i'r Contractwr Magnox; [viii] datblygu cynllun prentisiaid; [ix] cynyddu potensial/capasiti cadwyni cyflenwi lleol i ymgeisio am waith gan bob safle Magnox; [x] ymgysylltu â sefydliadau addysg lleol, cefnogi'r cwricwlwm a chael unigolion i anelu'n uwch; [xi] cefnogi swyddogaethau sy'n deillio o'r Safleoedd Magnox i'r economi leol; ac

		[xii] ad-leoli staff/swyddfeydd/busnesau cysylltiedig i'r ardal o amgylch Safle(oedd) Magnox.
6.8.2	Gofyniad Rhaglen y Cwmni Trwydded Safle (RSRL) Datblygu cynlluniau sy'n addas i safleoedd RSRL	<p>Bydd y Contractwr yn:</p> <p>6.8.2(a) blaenoriaethu meysydd i'w cefnogi. Dylai'r cynllun(iau) sy'n cael eu paratoi a'u cynnal gan y Contractwr yn unol â Gofyniad 6.8 uchod ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> [i] cynlluniau Datblygu Economaidd-gymdeithasol/Adfywio lleol; [ii] argaeledd tir cyfagos, sy'n eiddo i'r Awdurdod, i'w werthu er budd economaidd-gymdeithasol; [iii] y gwahanol gamau yng nghylchred oes pob Safle RSRL; [iv] y prif amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn ardal pob Safle RSRL; [v] canlyniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol; [vi] cadw sgiliau mewn ardaloedd lleol/trosglwyddo sgiliau o bob Safle RSRL i gymunedau lleol; [vii] trosglwyddo'r hyn a ddysgwyd o'r Sefydliad Corff Rhiant i'r Contractwr RSRL; [viii] datblygu cynllun prentisiaid; [ix] cynyddu potensial/capasiti cadwyni cyflenwi lleol i ymgeisio am waith o safleoedd RSRL; [x] ymgysylltu â sefydliadau addysg lleol, cefnogi'r cwricwlwm a chael unigolion i anelu'n uwch; [xi] cefnogi swyddogaethau sy'n deillio o bob Safle RSRL i'r economi leol; ac [xii] adleoli staff/swyddfeydd/busnesau cysylltiedig i'r ardal o amgylch Safle(oedd) RSRL.